# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 17EG HYDREF, 2024**

**(NODER: CYNHELIR CYFARFOD BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB)**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 10/10/24)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jina Gwyrfai | Iwan Huws |
| Dawn Lynne Jones | Dewi Jones |
| Gareth Tudor Jones | Olaf Cai Larsen |
| Gwynfor Owen | Llio Elenid Owen |
| John Pughe | Huw Rowlands |
| Rhys Tudur | Sian Williams |

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Gwilym Jones |
| Beth Lawton | Dewi Owen |
| John Pughe Roberts | Richard Glyn Roberts |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

### Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| [sedd wag] | Eglwys yng Nghymru |
| Colette Owen | Yr Eglwys Gatholig |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor |
| Sharon Roberts | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Elise Poulter | NEU |
| Gwilym Jones | NASUWT |

# R H A G L E N


**1. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**5. COFNODION** 6 - 19

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2024 fel rhai cywir.

**6. ADRODDIAD CYNNYDD AR YMATEB I ARGYMHELLION ESTYN** 20 - 28

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Beca Brown**

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

**7. TRAWSNEWID ADDYSG AR GYFER PLANT YN EU BLYNYDDOEDD CYNNAR** 29 - 37

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Beca Brown**

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

**8. STRATEGAETH LLESIANT STAFF** 38 - 61

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Menna Trenholme**

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

**9. SESIYNAU YMGYSYLLTU I DRAFOD POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD** 62

Ethol 5 cynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i fynychu sesiwn ymgysylltu ar y 4ydd o Ragfyr rhwng 1:30 a 3:30 y prynhawn.

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**
**18/07/24**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Jina Gwyrfai, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Dewi Owen, Gwynfor Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands a Rhys Tudur.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) ac Elise Poulter (NEU).

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:-**. Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE) ac Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:-** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 9: -** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) a Llion Williams (Pennaeth Cynorthwyol: Llesiant a Chydraddoldeb).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 10: -** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Dros Faterion Gweithredol Economi), Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol – Diwylliant) ac Angela Jones (Pennaeth Partneriaethau – Parc Cenedlaethol Eryri).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Cai Larsen yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2024/25.**

Diolchodd y Cadeirydd i'w ragflaenydd yn y gadair, y Cynghorydd Elwyn Jones, a hefyd i'r Cynghorydd Paul Rowlinson, y cyn Is-gadeirydd.

Croesawyd dau aelod newydd ar y pwyllgor, Y Cynghorwyr John Pughe a Sian Williams, a diolchwyd i'r Cynghorydd Paul Rowlinson a Sasha Williams am eu gwasanaeth.

Croesawyd Sharon Roberts, cynrychiolydd newydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon ar y pwyllgor, a diolchwyd i'w rhagflaenydd, Manon Williams, am ei gwasanaeth.

Anfonwyd dymuniadau gorau'r pwyllgor i'r Cynghorydd Beth Lawton yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Gan na chafwyd enwebiad ar gyfer yr Is-gadair, gohiriwyd yr eitem tan y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD gohirio'r eitem hon hyd y cyfarfod nesaf.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Iwan Huws, Beth Lawton, Llio Elenid Owen a Sian Williams; Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor) a Gwilym Jones (NASUWT).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cadeirydd fuddiant personol yn eitem 9 (Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion) ar ran pob aelod sy'n llywodraethwr ysgol. Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd yr aelodau'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2024 fel rhai cywir.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2023-24**

Croesawyd Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE) ac Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE) i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ychydig eiriau rhagarweiniol, gan ddiolch i Gyngor Gwynedd, a hefyd y pwyllgor hwn, am y gefnogaeth a roddwyd i GwE a'i staff ar hyd y blynyddoedd.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE grynodeb o gynnwys yr Adroddiad Blynyddol ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd i GwE am baratoi adroddiad cryno eleni.

Awgrymwyd bod y tueddiadau cenedlaethol yn gwrth-ddweud yr hyn a nodir yn yr adroddiad hwn. H.y. er bod Maes Allweddol 2 (Gwella Dysgu ac Addysgu) yn nodi bod ansawdd yr addysgu'n gyffredinol gadarn ar draws y sectorau, roedd adroddiad arall ar raglen y cyfarfod hwn yn datgan bod cyhoeddiadau diweddar, gan gynnwys adroddiadau Estyn, PISA a'r adroddiad cenedlaethol personol ar yr asesiadau, wedi nodi bod angen gwella ansawdd dysgu a deilliannau o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion, ayb. Mewn ymateb, nodwyd bod lefelau o dystiolaeth sy'n gwrth-ddweud ei gilydd yn anochel hyd oni fydd cyfeiriad y Llywodraeth o ran y Fframwaith Atebolrwydd yng Nghymru wedi'i amlygu.

Nodwyd ei bod yn ymddangos bod Maes Allweddol 5 (Cefnogaeth a Her i Ysgolion sy'n Achosi Consyrn) yn pwysleisio ar ganlyniadau academaidd bron yn ddieithriad, a holwyd beth fyddai'n digwydd petai yna gonsyrn ar faterion eraill, e.e. Anghenion Dysgu Ychwanegol neu arweinyddiaeth yr ysgol yn gyffredinol. Mewn ymateb, nodwyd mai ansawdd yr arweinyddiaeth sy'n greiddiol i hyn i gyd a bod ei sgil-effaith yn treiddio drwodd wedyn i ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth mae'r plant yn gael, gan effeithio ar safonau'r plant yn y pen draw.

Holwyd sut bod yr 13 blaenoriaeth gwella yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 wedi gostwng i 5 erbyn hyn. Mewn ymateb, nodwyd bod yr holl agweddau wedi'u crynhoi i'r 5 blaenoriaeth yn yr adroddiad hwn.

Croesawyd gonestrwydd yr adroddiad, megis y sylw '*Mae ansawdd uwch arweinyddiaeth yn gyffredinol gadarn ond erys rhai heriau mewn ardaloedd penodol*' ac '*Erys anghysondeb yn ansawdd gweithredu ar draws yr awdurdod ...*'.

Croesawyd y ffaith bod 8 athro o Wynedd wedi ennill Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) eleni, ond awgrymwyd y byddai wedi bod yn fuddiol nodi sut roedd y ffigwr yn cymharu â'r 3 blynedd flaenorol. Mewn ymateb, nodwyd bod y ffigwr yn weddol gyson yng Ngwynedd, ac y bydd yn ddiddorol gweld yn y cyfnod nesaf faint fydd yn dewis defnyddio'r cymhwyster i arwain yn eu milltir sgwâr.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 8. ADOLYGIAD HAEN GANOL

Croesawyd Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn gwahodd mewnbwn y pwyllgor i'r newidiadau arfaethedig yn y modd y caiff y gwasanaeth gwella i ysgolion ei ddarparu i'r dyfodol.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun. Diolchodd i staff GwE am eu holl waith a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd, gan nodi bod eu mewnbwn a'u cyngor arbenigol wedi'i werthfawrogi'n fawr gan yr ysgolion.

Ymhelaethodd y Pennaeth Addysg ar gynnwys yr adroddiad ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd bod canllawiau drafft Llywodraeth Cymru '*Model cydweithredol rhwng ysgolion, ALlau, a'r llywodraeth genedlaethol*' yn nodi y dylai cyrff llywodraethu '*Ystyried eu trefniadau eu hunain ar gyfer gweithio gyda chyrff llywodraethu eraill er mwyn cefnogi cydgyfrifoldeb a gwelliant cydweithredol*', a holwyd a oedd bwriad i ail-sefydlu'r corff Llywodraethwyr Gwynedd, oedd yn weithredol cyn Cofid. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod bwriad i adfer y Fforwm ar gyfer llywodraethwyr, a hynny ar ffurf hybrid, gan hefyd edrych ar gyfleoedd i wneud y corff yn fwy torfol.
- Bod Fforwm Plant a Phobl Ifanc yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd a'i bod yn naturiol mynd i'r afael â llywodraethiant ysgol hefyd, er mwyn cael llais pawb o ran symud yr agweddau hyn yn eu blaenau.

Mynegwyd pryder y gallai ymestyn ar y cydweithio rhwng ysgolion olygu bod y gwersi a ddarperir ar y cyd yn mynd yn fwyfwy Saesneg, o gofio bod dwy ysgol uwchradd yn y sir yn gweithredu fwy na heb fel ysgolion Saesneg. Holwyd a oedd gan y Cyngor ganllawiau o ran cydweithio er sicrhau nad oes llithriad yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd y model newydd yn awgrymu symud plant o un ysgol i'r llall i gael gwersi, ond yn hytrach yn cyfeirio at arweinyddion ysgolion yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd.

Awgrymwyd bod y trefniadau arfaethedig yn ymddangos yn hynod heriol. Nodwyd bod yna bob math o broblemau unigol ymhob un ysgol a'i bod yn bwysig cael ysgolion tebyg i helpu'i gilydd, yn hytrach na gweithredu ar sail clystyrau daearyddol. Nodwyd hefyd bod penaethiaid dan eu sang yn barod, a bod disgwyl iddynt gymryd rôl ychwanegol yn helpu ysgolion eraill (er yn gwneud hynny'n answyddogol eisoes) yn mynd i roi llawer o bwysau ychwanegol arnynt, yn enwedig mewn ysgolion bychain. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod rhoi hyn oll ar waith yn ysgolion Gwynedd yn mynd i fod yn heriol iawn am nifer o resymau, gan gynnwys y ffaith bod gan Wynedd gymaint o unedau ysgolion, a

llawer o'r unedau ysgolion hynny yn ysgolion bach, a nifer fechan iawn o benaethiaid digyswllt.

- Bod yr heriau'n amlygu'r hyn mae GwE wedi llwyddo i'w wneud dros y blynyddoedd, sef mynd i mewn i'r ysgolion a theilwrio'r arweiniad ar gyfer ysgolion unigol, waeth beth eu maint.
- Y pwysleisir dro ar ôl tro yn y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru bod ein cyd-destun yng Ngwynedd yn gwneud hyn oll yn heriol iawn ac mai capasiti'r ysgolion, yn hytrach na'u gallu, i wneud y gwaith yw'r her.
- Bod y pwynt daearyddol yn bwysig hefyd gan fod y clystyrau yng Ngwynedd yn wahanol iawn a hefyd bod ysgolion o fewn yr un clwstwr daearyddol yn cystadlu am blant o'r dalgylch.
- Y byddai'n ofynnol cynllunio gwasanaeth gyda phobl yn y canol sydd â'r gallu i dynnu'r agweddau hyn at ei gilydd a sicrhau bod pawb yn cael eu siâr o ran cefnogaeth gwella ysgolion hefyd. Roedd yn gynamserol i ddweud sut y byddai hynny'n edrych nes cael y manylion y disgwylir amdanynt gan y Llywodraeth, ac yn amhriodol i sôn am hynny ar hyn o bryd yng nghyd-destun materion cyflogaeth ayb.

Nodwyd y dymunai'r craffwyr ychwanegu eu cefnogaeth i ymdrechion y Pennaeth i gael llais i sefyllfa unigryw Gwynedd.

Holwyd a fyddai'n bosib' parhau i ddefnyddio arbenigedd swyddogion GwE yn ystod y cyfnod trosiannol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod rhaid bod yn ofalus o ran y wybodaeth y gellir ei rhannu oherwydd materion adnoddau dynol.
- Bod nifer o staff GwE ar gytundebau parhaol a rhai wedi bod ar secondiadau sy'n dirwyn i ben, ac roedd penderfyniad wedi'i wneud drwy Gyd-bwyllgor GwE o ran y strwythur staffio ar gyfer y flwyddyn yma.
- Gan fod GwE yn wasanaeth rhanbarthol, byddai'n rhaid i'r 6 awdurdod sy'n cael eu gwasanaethu gan GwE ddilyn yr un drefn o ran ymateb i ail-strwythuro a chyfleoedd cyflogaeth amgen i staff, ac roedd trafodaethau ynglŷn â hynny yn digwydd ar hyn o bryd.
- O safbwynt cyllid, bod y grantiau, sydd eisoes wedi'u pasio ymlaen i GwE eleni, yn unol â dymuniad Llywodraeth Cymru, yn fwy na'r dyraniad craidd i GwE. Yn y cyfarfodydd gyda'r Llywodraeth, gofynnwyd am sicrwydd o ran y grantiau hyn, ond gan nad oedd y grantiau yn dod o'r setliad, roedd yna oblygiadau cyflogaeth hyd yn oed wedyn yn yr ystyr na ellid cyflogi'n barhaol gyda grant oherwydd y posibilrwydd na fyddai'r grant yna ymhen 12 mis.
- Bod yr ystyriaethau o ran adnoddau dynol yn derbyn sylw gan arbenigwyr o Wynedd a bod hynny'n lleddfu pryderon o safbwynt bod y broses yn mynd i gael ei dilyn yn gywir.

Yn wyneb yr esboniad ynglŷn â'r cyllido, awgrymwyd bod gan y model hwn botensial i fod gryn dipyn yn rhatach yn yr hir dymor, a gofynnwyd, gan fod cyfran helaeth o'r gefnogaeth yn ddibynnol ar arian grant yn hytrach na dyraniad, a fyddai'n deg dweud y gellid gweld hyn fel ffordd o gau'r tap. Mewn ymateb, nodwyd y credid bod yna wirionedd yn hynny, ac er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn datgan eu bod yn gweithio'n galed i geisio sicrhau bod cyfanswm yr arian sy'n mynd i mewn i'r maes yma yn aros yr un fath, nid oedd yna unrhyw sicrwydd ar ba sail y byddai hynny'n cael ei ddyrannu a phryderid ynglŷn â chapasiti'r ysgolion i fedru rhyddhau unigolion i fynd i ysgol arall i wneud y gwaith.

Awgrymwyd, os yw'r cydweithio rhwng ysgolion yn fater o drefniant anffurfiol a disgresiwn pennaeth, ac ati, y gallai fod yn anodd iawn gwneud achos ariannol drosto. Mewn ymateb, nodwyd er nad oes sicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â'r union fodel, ei bod yn debygol y byddai cynnig cyffredinol yn cael ei wneud i'r mwyafrif helaeth o ysgolion yn seiliedig ar y

gwaith dalgylch, gyda'r Awdurdod yn dyrchafu'r gwaith yn fwy o gomisiwn ar gyfer targedu agweddau neilltuol mewn ysgolion lle mae mwy o heriau penodol.

Mynegwyd dymuniad i weld llai o ymreolaeth a mwy o unffurfiaeth o fewn y gyfundrefn addysg ar draws y DU, ac eithrio'r gwahaniaeth ieithyddol a'r agweddau diwylliannol ar y cwricwlwm yn ymwneud â hanes lleol, ac ati, yn achos ardaloedd fel Gwynedd. Credid y byddai unffurfiaeth o'r fath yn milwrio yn erbyn yr elfen o gystadleuaeth sy'n gallu bodoli rhwng ysgolion, yn hwyluso rhannu ymarfer da gyda gweddill y sefydliad ac yn ei gwneud yn haws gosod safonau a mesur yn erbyn y safonau hynny. Mewn ymateb, nodwyd y derbynnid y pwynt, ond nad oedd gennym unffurfiaeth o fewn y gyfundrefn addysg, nac yn debygol o'i gael wrth symud ymlaen.

Mewn ymateb i'r sylw, nododd yr aelod fod sylwadau swyddogion GwE ar eitem 7 yn nodi nad ydym, i bob pwrpas, yn gwybod beth rydym yn ei fesur, ac y byddai'n braf gallu cychwyn rhyw fath o unffurfiaeth ar lefel lleol bron.

Holwyd a oedd gan yr Adran Addysg y capasiti i fynd i'r afael â'r holl gyfrifoldebau ychwanegol hyn, o ystyried ei bod yn adran fechan beth bynnag ac yn wynebu llawer o heriau dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y capasiti yna ar hyn o bryd, ond y byddai'n rhaid ail-strwythuro'r Adran i allu ymgorffori'r swyddi a'r cyfrifoldebau sy'n dod yn sgil hyn.

Holwyd a ellid bod yn hyderus y bydd yr adnoddau fydd yn cael eu rhyddhau yn ddigonol ar gyfer cwrdd â'r gofynion. Mewn ymateb, nodwyd ei bod yn gynamserol i roi ateb pendant yr un ffordd neu'r llall, ond y byddai'n heriol oherwydd y niferoedd ysgolion yng Ngwynedd a natur wasgaredig y sir.

Holwyd a oedd disgwyl i'r system newydd fod yn barod erbyn mis Medi. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod rheidrwydd ar yr Awdurdod i gyflwyno'r model newydd ym Medi/Hydref.
- Y byddai yna oblygiadau wedyn o ran trosglwyddo staff. Ni ellid cadarnhau ar hyn o bryd a fyddai'n bosib' gwireddu'r newidiadau hynny erbyn diwedd Mawrth 2025, a byddai'r Awdurdod yn derbyn cyngor ar hynny.
- Y credid y byddai'n well petai'r sefyllfa'n parhau fel y mae tan ddiwedd tymor yr haf beth bynnag, gan na ddymunid newid pethau yn ganol blwyddyn ysgol.
- Nad oedd penderfyniad wedi'i wneud ar hynny'n derfynol eto oherwydd bod cymaint o bethau yn ansicr ar hyn o bryd.

Holwyd a olygai hynny y gellid bod mewn sefyllfa lle nad oes dim byd yn ei le. Mewn ymateb, nodwyd na chaniateid i hynny ddigwydd, ac y byddai'n rhaid sicrhau bod yna wasanaeth mewn lle, hyd yn oed petai hynny'n barhad o'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, neu'n fersiwn gwahanol neu drosiannol ohono.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 9. TREFNIADAU DIOGELU MEWN YSGOLION

Croesawyd Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) a Llion Williams (Pennaeth Cynorthwyol: Llesiant a Chydraddoldeb) i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg mewn ymateb i gais gan yr aelodau i dderbyn gwybodaeth am drefniadau diogelu mewn ysgolion, ynghyd â'r arweiniad a'r gefnogaeth a roddir yn y maes hwn gan yr Adran Addysg er mwyn rhoi sicrwydd i aelodau'r pwyllgor o briodoldeb y trefniadau.

Gosododd yr Aelod Cabinet Addysg y cyd-destun a chyflwynodd y Pennaeth Addysg ychydig eiriau ar y cychwyn hefyd.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd nad oedd gwiriad DBS yn profi bod rhywun yn berson diogel, ond yn hytrach yn datgan nad oedd person wedi'i ganfod yn euog o drosedd hyd yma. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y cytunid â'r sylw, ac yn ogystal â'r DBS, bod y Cyngor hwn yn gofyn am 2 dystlythyr cyn penodi i unrhyw swydd.
- Mai ond 0.07% o'r staff sydd heb DBS erbyn hyn, a bod yna resymau penodol am hynny, e.e. salwch hirdymor, person wedi'i atal o'r gwaith neu bobl ar restrau llanw sydd ddim yn dymuno gweithio i Wynedd mwyach.
- Bod ymdrechion yn mynd rhagddynt bron yn ddyddiol i gyrraedd at y targed o 100%.
- Bod y Grŵp Gweithredol Diogelu yn monitro faint o bobl sydd wedi cael DBS, ac os yw'r canrannau'n is na'r disgwyl, yn gofyn beth yw'r eglurhad a'r cyfiawnhad dros hynny.

Holwyd faint o waith monitro sy'n digwydd er sicrhau bod y person diogelu dynodedig mewn ysgol yn cwblhau pob hyfforddiant angenrheidiol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod ar ffurf grwpiau bychain, fel bod pobl yn cael cyfle i ofyn cwestiynau na fyddent, efallai, yn eu gofyn mewn grwpiau mwy.
- Bod natur yr hyfforddiant bellach yn fwy hwyliog a rhyngweithiol, a bod yr adborth o'r sesiynau blynyddol hyn yn gadarnhaol iawn.
- O ran monitro, bod cyfrifoldeb ar gyrff llywodraethu i fod â pherson â throsolwg ar amddiffyn plant ar y corff, a byddai disgwyl i'r person hwnnw gyfarfod gyda'r person diogelu dynodedig i drafod y sefyllfa yn yr ysgol o ran diogelu plant.
- Y darperid hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr hefyd o ran eu rôl monitro a chefnogi'r person diogelu dynodedig o fewn yr ysgol.
- Bod Gwynedd yn un o'r ychydig awdurdodau yng Nghymru sy'n cynnal ymholiadau gwirio ansawdd, lle mae'r swyddog dynodedig yn y sir yn mynd i ysgol ac yn cynnal ymchwiliad manwl sydd wedyn yn bwydo i mewn i drosolwg awdurdod. Drwy wneud hynny, gellir gweld oes yna bethau sydd ddim yn cael eu gwneud yn iawn, beth ydyn nhw ac a oes angen mireinio'r hyfforddiant i allu gwella'r arweiniad a roddir i bersonau dynodedig.
- Bod y Grŵp Gweithredol Diogelu yn monitro faint o bobl sydd wedi derbyn hyfforddiant diogelu, ayb, ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Panel Strategol Diogelu.

Nodwyd y gobeithid nad oedd modd i aelod staff fod yn llywodraethwr dynodedig. Mewn ymateb, nodwyd na ddymunid i hynny ddigwydd, a phe gwelid ei fod yn digwydd, y byddai'n rhaid tynnu sylw'r corff llywodraethu at amhriodoldeb y sefyllfa.

Nodwyd bod hyfforddiant lefel 2 yn hynod werthfawr a phwysig ac y dylai fod yn fandadol ar gyfer llywodraethwyr dynodedig. Holwyd pa fonitro oedd yn digwydd i sicrhau bod llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant lefel 1 a bod llywodraethwyr dynodedig wedi derbyn hyfforddiant lefel 2. Mewn ymateb, nodwyd bod yr Awdurdod yn monitro bod personau dynodedig ar y corff llywodraethu wedi derbyn hyfforddiant lefelau 1 a 2.

Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi darlun o gyfundrefn eithaf cadarn, ond i gyfundrefn weithio bod rhaid i'r pwynt mynediad weithio, hy, bod rhaid i achos o gam-drin posib' fynd i mewn i'r gyfundrefn yn y lle cyntaf. Gofynnwyd am esboniad o'r drefn o'r pwynt lle mae e.e.

cymhorthydd mewn dosbarth yn sylwi ar farciau ar gorff plentyn. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn cael ei egluro yn y polisi, ond bod y drefn fel a ganlyn:-

- Bod staff yn cael eu hannog a'u hyfforddi i wrando ar y plentyn, i ofyn cwestiynau sydd ddim yn gwestiynau caeedig, i gofnodi'r hyn sy'n cael ei ddweud yng ngeiriau'r plentyn ac i gyfeirio hynny i sylw'r person dynodedig o fewn yr ysgol (y pennaeth neu aelod o'r tîm rheoli gan amlaf).
- Bod cyfrifoldeb ar y person dynodedig i gysylltu â'r Tim Derbyn ym Mhwllheli i dderbyn cyngor priodol.
- Bod y broses diogelu plant yn dod yn weithredol o'r pwynt hwn ymlaen. Gallai gweithiwr cymdeithasol ymweld â'r ysgol i edrych ar y marciau ar y plentyn, neu o bosib y gallai'r heddlu gael eu galw.
- Bod gofyn i'r ysgol gyflwyno ffurflen gyfeirio wedi'i chwblhau yn fanwl ac yn gywir cyn gynted â phosib', ond nid oedd rheidrwydd i'w llenwi cyn dwyn y mater i sylw'r Tim Derbyn.
- Y byddai'r staff yn gofalu am y plentyn yn y cyfamser ac yn parhau hefo'r gofal o gwmpas y diogelu wedi i'r plentyn gael ei weld gan y gweithiwr cymdeithasol.

Nodwyd ymhellach:-

- Bod cwestiwn diogelu yn cael ei ofyn ymhob cyfweliad am swydd athro/athrawes, ac er i'r Pennaeth gyfweld degau, os nad cannoedd o athrawon dros y blynyddoedd, nid oedd erioed wedi dod ar draws unrhyw ymgeisydd oedd yn ansicr o'r gweithdrefnau diogelu.
- Mewn achos o bryder ynglŷn â mater diogelu posib', y cynghorid ysgolion i adael bob dim a chysylltu'n syth â'r Tim Derbyn, waeth pa mor brysur yw'r diwrnod ysgol.

Holwyd pwy sy'n gyfrifol petai sefyllfa yn dod i'r amlwg sydd ddim o reidrwydd yn gŵyn neu gonsyrn, ond bod yna wybodaeth sy'n awgrymu bod risg i blant. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod diogelu plant yn gyfrifoldeb i bawb, ond o fewn ysgol a chyd-destun ysgol, bod y cyfrifoldeb yn sefyll gyda'r pennaeth a'r person dynodedig o fewn yr ysgol honno.
- Bod yna drefniadau a modelau mewn lle i ysgolion gofnodi pryderon lefel isel am blant, e.e. tyllau mewn esgidiau ayb, ac o bosib' y gallai cofnodi'r un pryderon am ddyddiau neu wythnosau ar y tro deilyngu cyfeiriad.
- Petai gan ysgol bryderon gwirioneddol am blant, e.e. marciau ar eu cyrff, nid oedd ganddynt ddewis ond cyfeirio'r mater i'r Tim Derbyn.
- Bod ysgolion yn gorfod gwneud penderfyniadau'n ddyddiol i naill ai gyfeirio achos neu gofnodi pryder. Ni allai'r Awdurdod ymyrryd yn y broses oherwydd, gyda chymaint o ysgolion yn y sir, nid oedd gofyn i'r Awdurdod wneud hynny, ac nid oedd yn ymarferol nac yn rhesymol i'r Awdurdod wneud hynny chwaith.
- Bod yr hyfforddiant yn rhoi arweiniad ar adnabod y trothwy rhwng pryder lefel isel a phryder gwirioneddol a bod nifer y cyfeiriadau a dderbynnir gan y Tim Cyfeiriadau Plant yn dyst i'r ffaith bod ysgolion Gwynedd yn gwybod sut i adnabod risg a gweithredu ar hynny.

Mynegwyd pryder nad oedd prosesau'r Awdurdod yn ddigon clir i alluogi i bobl sydd ddim yn rhan o'r sefydliad addysgol, ond sy'n dod i gyswllt â phlant, megis rhieni, staff arlwyo, ayb, fwrw cŵyn. Holwyd a ellid sicrhau bod y canllaw diogelu yn amlwg yn y polisi diogelu. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod pob aelod o staff sy'n gweithio mewn ysgol yng Ngwynedd, o'r staff arlwyo i'r tim rheoli, yn derbyn hyfforddiant priodol ar gyfer diogelu plant.
- Ei bod yn ofynnol i bob ysgol arddangos enw'r person dynodedig ar lefel awdurdod ar bosteri yn yr ysgol.

- Bod gan bob ysgol eu fersiwn eu hunain o'r polisi diogelu a bod y fersiwn ar y wefan yn bolisi enghreifftiol sy'n cael ei rannu gydag ysgolion, ac yn seiliedig ar arfer cenedlaethol.

Nodwyd y byddai'n fuddiol petai canllaw cryno ar sut i fwrw cŵyn ar gael yn hwylus o unrhyw bolisi diogelu.

Holwyd sut y gall, e.e. cymhorthydd mewn ysgol sy'n cyflwyno cŵyn, sicrhau bod y broses wedi'i dilyn. Nodwyd y gellid rhoi system hyfforddiant mewn lle ar gyfer pawb sy'n rhan o'r system, ond ni fyddai'r gadwyn ond cyn gryfed â'r linc gwanaf ynddi. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Fel gydag unrhyw drefn, ni ellid rhoi sicrwydd 100%, ond bod y system mor berffaith ag y gall fod.
- Bod DBS yn wiriad o sefyllfa aelod o staff ar bwynt mewn amser ac yn cael ei ddiweddaru yn unol ag arweiniad cenedlaethol.
- Ei bod yn arfer da i staff sydd wedi codi pryder am blentyn wirio ydi'r cyfeiriad wedi'i wneud.

Awgrymwyd mai'r un peth pwysig sydd ar goll yng nghanol baich y deunydd hyfforddiant i lywodraethwyr yw'r nifer fechan o bethau syml mae llywodraethwyr wirioneddol angen wybod, sef y dylai llywodraethwr cyffredin gyfeirio pryder ynglŷn â staff yr ysgol neu riant i'r pennaeth, neu gyfeirio pryder ynglŷn â'r pennaeth i'r awdurdod. Mewn ymateb, nodwyd bod hynny yn y polisi, ond o bosib' bod angen ei amlygu ychydig yn well a'i symleiddio.

Nodwyd ei bod yn debygol bod yr achos diweddar yng nghefn meddyliau pawb o'r aelodau wrth drafod y maes hwn. Roedd yn debygol bod gan y pennaeth dan sylw DBS a bod pawb o'i gwmpas wedi gwneud yr hyfforddiant, ayb, ond er hynny bu methiant. Roedd y Pennaeth Addysg yn bod yn onest yn dweud na allai'r un system fod yn berffaith, ac roedd yn bwysig cael agwedd hunan-feirniadol tuag at y system. Nodwyd ymhellach y derbyniodd y pwyllgor hwn adroddiad gan Estyn ar yr Adran Addysg oedd yn datgan bod y gyfundrefn, at ei gilydd, yn gadarn, pan nad oedd hynny'n wir. Holwyd i ba raddau roedd yr Adran yn trafod hynny gydag Estyn, ac i ba raddau y byddai'r drafodaeth yna gyda'r corff arolygu annibynnol yn cael ei defnyddio i gryfhau trefniadau'r Adran yn y man. Mewn ymateb, nodwyd bod yr Awdurdod wedi ymateb yn gwbl ddiffuant a gonest i gwestiynau Estyn fel rhan o'r arolwg a bod yr adroddiad yn amlygu ein bod yn dilyn y canllawiau diogelu yn briodol ar yr adeg hynny.

Awgrymwyd bod lle i drafod yr adroddiad ymhellach gydag Estyn gan fod y pwyllgor hwn, a hefyd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn ddibynnol ar adroddiadau cyrff rheoleiddio allanol er mwyn dod i farn ar drefniadau'r Awdurdod. Nodwyd y gallai adroddiadau o'r fath fod yn ddiffygiol drwy fod y cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn gwestiynau annigonol o ran eu cyrhaeddiad ac felly'n arwain at ddiffyg yn y broses. Credid bod hynny'n fater i fynd ar ei ôl er ceisio atal methiant systemig.

Awgrymwyd, yng nghyswllt cŵyn am bennaeth yn benodol, y dylid cyfeirio'r mater fwy nag unwaith at fwy nag un parti fel nad oes unrhyw beth yn cael ei fethu. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna drefn gytunedig o ran delio gyda chyhuddiadau yn erbyn pobl mewn safle o ymddiriedaeth, a bod yr Awdurdod yn dilyn y drefn honno.
- Y byddai'r Pennaeth a'r Adran Addysg yn ymrwymo i unrhyw wersi a newidiadau allai ddeillio o'r adolygiad ymarfer.

Gofynnwyd am sicrwydd bod yna raglen hyfforddiant gadarn ar gyfer y lefel nesaf o bobl, hy swyddogion addysg, ac o bosib', ymgynghorwyr GwE, gan eu bod hwythau hefyd yn derbyn

pryderon am faterion diogelu. Mewn ymateb, rhoddwyd sicrwydd bod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddogion yr Adran Addysg a'r gwasanaethau eraill i gyd.

Nodwyd, o bersbectif rhiant, y byddai'n hynod fuddiol petai yna inffograffig rhyngweithiol eithaf syml ar gael i helpu rhieni / llywodraethwyr i wybod beth i gyfeirio, pryd i gyfeirio ac i ble i gyfeirio. Gellid gofyn i bob ysgol osod yr inffograffig ar eu safle we a chyfeirio ato bob tymor efallai, er mwyn amlygu bod yna broses gadarn yn ei lle bellach. Nodwyd bod hyder rhieni yn y system wedi'i dolcio a bod yna waith i'w wneud i godi ymwybyddiaeth o'r arolwg a'r ffordd newydd o wneud pethau er sicrhau bod plant yn ddiogel yn yr ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd bod y pwynt yn un teg ac y byddai'r Pennaeth Addysg yn gofyn i'r swyddogion lunio model o inffograffig i'r ysgolion unigol ei fireinio a'i osod ar eu safle we.

**PENDERFYNWYD**
1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Argymell bod yr Adran Addysg yn darparu canllaw syml o ran cyfeirio pryderon er defnydd pawb sy'n ymwneud â'r gyfundrefn, megis llywodraethwyr a rhieni.**

Ar ddiwedd y drafodaeth, nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn rhoi cysur i'r pwyllgor bod yna drefn gadarn mewn lle. Er hynny, roedd yn wir i ddweud hefyd bod ffydd y cyhoedd yn y system wedi'i danseilio. Awgrymodd, o bosib', y dymunai'r pwyllgor edrych ymhellach ar y maes hwn yn y dyfodol agos a gellid trafod hynny ymhellach yn y cyfarfod anffurfiol o'r pwyllgor i ddilyn y cyfarfod hwn.

## 10. CYNLLUN ECONOMI YMWELD CYNALIADWY GWYNEDD AC ERYRI 2035

Croesawyd Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Dros Faterion Gweithredol Economi), Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol – Diwylliant) ac Angela Jones (Pennaeth Partneriaethau – Parc Cenedlaethol Eryri) i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Dros Faterion Gweithredol Economi yn cyflwyno diweddariad ar Gynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 ac yn gwahodd y pwyllgor i graffu'r cynnydd, y Cynllun Gweithredu a'r Mesuryddion

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am ddangos gwir ddiddordeb yn y maes a mynychu cyfarfodydd lleol yn gysylltiedig â'r pwnc, sy'n amlygu pa mor hawdd yw'r cysylltiad sydd o fewn y Cyngor i fedru gwireddu cynllun o'r fath.

Nodwyd bod yr adroddiad yn dweud bod ymgynghori helaeth wedi ei gynnal wrth ddatblygu'r Cynllun, ond ac eithrio'r gweithdai a gynhaliwyd ar y cychwyn, ni chredid bod unrhyw ymgynghori arall wedi digwydd gyda chynghorwyr sir, o leiaf. Holwyd pa ymgynghori sydd wedi digwydd yn ardal y Parc Cenedlaethol, a gyda phwy? Mewn ymateb, nodwyd:-
- Bod yr ymgynghori wedi digwydd yn eang rhwng pawb. Cynhaliwyd sawl sesiwn rhwng y Cyngor a'r Parc gyda'r cynghorwyr i gyd ar draws yr ardal, yn cynnwys yr ardal wledig o Gonwy sydd yn y Parc.
- Bod y bartneriaeth sydd wedi'i chreu yn disodli'r hen Grŵp Rheoli Cyrchfan oedd yn bodoli cynt a'i bod yn cael ei chynnal gan y Cyngor, gyda'r Parc yn bwydo i mewn i hynny hefyd.
- Bod y Grŵp sydd wedi'i sefydlu bellach, sy'n cynrychioli busnesau a chymunedau, yn grŵp arloesol ac yn wir gynrychioli'r holl ardal. Gan hynny, am y tro cyntaf,

cafwyd darlun llawn o'r holl brosiectau a'r gweithgareddau sy'n digwydd ar draws yr ardal gyfan.

- Yn ogystal â'r ymgynghori ffurfiol, anfonwyd 4 nodyn briffio at bob cyngor cymuned a'r cynghorwyr i gyd ar draws yr ardal hefyd, a bwriedid anfon nodyn briffio pellach at bawb yn fuan yn rhoi diweddariad ar bopeth sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf.
- Bod bwriad hefyd i gynnal cynhadledd flynyddol sy'n dod â phawb sydd â diddordeb yn y pwnc at ei gilydd, ac roedd hyn eto'n ffordd reit newydd ac eang o gael mewnbwn gan yr holl ardal.

Mewn ymateb, nodwyd y derbynnid bod yna ymgynghori wedi digwydd ar y cychwyn, ond y credid bod angen ymgynghori parhaus ar gynllun o'r fath. Nododd yr aelod hefyd mai dyma'r tro cyntaf iddo glywed am y nodyn briffio, ac nid oedd yn ymwybodol ei fod wedi ei dderbyn. Nododd hefyd, gan nad oes gofyn statudol i'r Parc ymgynghori â chynghorwyr sir, eu bod yn cael eu gadael allan gan amlaf, a galwodd ar y Parc i ymgynghori'n llawer gwell â chynghorwyr sir ar faterion sy'n digwydd o fewn y Parc.

Gofynnwyd i'r swyddogion ymhelaethu ar rôl y grwpiau ymgynghori lleol Ardal Ni. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y grwpiau Ardal Ni yn fforwm eithaf newydd gan y Cyngor ar gyfer ymgysylltu â chymunedau i weld beth yw eu blaenoriaethau hwy ar lefel leol.
- Mai rhai o'r prif faterion yn codi o fewn yr 13 ardal oedd sut i gael twristiaeth gynaliadwy o fewn yr ardal, gyda nifer o'r materion yn ymwneud ag isadeiledd yr economi ymweld hefyd.
- Bod yr ymatebion ar lefel cymuned yn eithaf lefel uchel ac aethpwyd drwy bob un o'r cynlluniau gweithredu sydd wedi'u hadnabod a'u blaenoriaethu er mwyn ceisio eu hymgorffori yn y cynllun gweithredu.
- Bod ymgynghori yn digwydd ar hyn o bryd i gytuno ar y strwythurau gweithredu o fewn yr 13 Ardal Ni, a bwriedid parhau â'r ymgysylltu yma wrth weithredu'r cynllun gyda'r 13 ardal drwy'r swyddogion cefnogi cymunedau.

Mynegwyd pryder bod y Dashfwrdd Mesuryddion yn awgrymu nad cynllun twristiaeth gynaliadwy sydd yma, ond cynllun twf twristiaeth gynaliadwy, gyda'r holl gynlluniau i weld yn gogwyddo tuag at dwf mewn twristiaeth. Nodwyd hefyd nad oedd y data ynglŷn â nifer swyddi, ee, yn nodi ydi'r swyddi hynny yn cael eu dal gan bobl leol ai peidio ac ydi'r cyflogau yn ddigonol, ac ati. Mynegwyd dymuniad i weld y math yma o dystiolaeth yn cael ei chasglu er mwyn gweld os ydi twristiaeth, sy'n debygol o dyfu beth bynnag, yn gynaliadwy ac yn llesol yn lleol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad twf yw amcan y Cynllun, eithr ceisio sicrhau economi ymweld sy'n cydbwyso anghenion cymunedau, yn cefnogi'r iaith Gymraeg ac yn cefnogi diwylliant a phobl y sir.
- Bod y cynghorydd wedi canolbwyntio ar y drydedd egwyddor o fewn y Cynllun sy'n edrych ar y mesuryddion economaidd. Yn draddodiadol, dyma'r unig fesuryddion fyddai wedi bod ar gael i fesur yr economi ymweld yng Ngwynedd, a'r pryder oedd ein bod yn mesur ar sail twf a gwerth, yn hytrach nag ar sail y canlyniadau ar yr amgylchedd, yr economi a'n cymunedau a'n diwylliant.
- Mai dyna pam bod yna ddashfwrdd ynghlwm i'r adroddiad yn cynnwys, nid yn unig yr elfennau llywodraethol, ond hefyd sut rydym ni'n edrych ar effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg ac ar yr amgylchedd.
- Y byddai holiadur yn cael ei anfon allan at gymunedau am y tro cyntaf yn gofyn ydyn nhw'n teimlo bod twristiaeth yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol arnynt fel cymuned ac ar eu hiaith a'u diwylliant a'u hamgylchedd.

- Bod bwriad hefyd i edrych ar faint sy'n cael eu cyflogi, gan fod hynny'n ddangosydd pwysig, ond fel rhan o hynny, bwriedid edrych ar gyfartaledd cyflog o fewn y sector hefyd gan y dymunid gweld y sector yn un sy'n cynnig cyflog da, a hynny drwy'r flwyddyn.
- Yr edrychid hefyd ar faint o fusnesau sy'n defnyddio cynnyrch lleol a faint o'r gadwyn gyflenwi leol sy'n cael hwb trwy'r sector economi ymweld.
- Yr edrychid hefyd ar dwf, nid o ran nifer yr ymwelwyr sy'n dod i'r ardal, ond faint sy'n dod ar wahanol adegau o'r flwyddyn, gan mai ymestyn y tymor yw nod y Cynllun.
- Mai un o amcanion prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth Academi Croeso Cymru yw cydweithio gydag ysgolion yn lleol i ddatblygu eu diddordeb yn y maes twristiaeth a'r economi ymweld a datblygu llwybr gyrfa i bobl leol o fewn yr economi ymweld fel bod y sector yn cael ei weld fel cyfle gyrfa, yn hytrach na chyfle achlysurol neu waith dros dro.

Mynegwyd dymuniad i weld mwy o fin ar y mesuryddion. Yn benodol, dymunid gweld manylder o ran nifer y bobl leol sy'n gweithio yn yr ardal. Fel arall roedd peryg' o gael diwydiant twristiaeth sy'n dod yma o ardaloedd eraill a ddim yn gwreiddio yn y gymuned. Mynegwyd pryder hefyd o ddeall mai un o amcanion cynllun twristiaeth gynaliadwy yw ymestyn y tymor twristiaeth, a holwyd a fu ymgynghori eang ar yr amcan hwnnw, gan fod llawer o bobl leol yn casáu prysurdeb y prif dymor gwyliau. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod neges glir wedi dod allan o'r ymgynghoriad ynglŷn â phwysigrwydd ymestyn y tymor twristiaeth er mwyn cael llai o effaith ar gymunedau'r sir.
- Ei bod hefyd yn bwysig ymestyn y tymor fel bod modd i weithwyr yn y sector twristiaeth gael eu cyflogi'n barhaol drwy'r flwyddyn, a hefyd i fusnesau allu cadw eu staff.
- Y dymunid gweld gostyngiad yn y niferoedd sy'n ymweld â'r ardal yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst, gyda'r niferoedd wedi'u taenu dros y flwyddyn gyfan er mwyn cael mwy o swyddi cynaliadwy o fewn yr economi ymweld.

Mynegwyd amheuaeth ynglŷn â'r nod o leihau nifer yr ymwelwyr yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst gan fod pobl am barhau i ddod i Wynedd yn ystod gwyliau ysgol beth bynnag.

Nodwyd bod yna sawl cyfeiriad yn y dogfennau at ymchwil a gafodd ei gomisiynu neu sy'n mynd i gael ei gomisiynu, a bod hynny'n rhywbeth i'w groesawu.

Nodwyd bod gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod 59% o'r llafurlu yng Ngwynedd sy'n weithredol ym maes gwestai a bwytai (sy'n tueddu i fod yn waith tymhorol cyflog is) yn medru'r Gymraeg, o gymharu â 74% yn y maes adeiladu (sy'n tueddu i fod yn waith llawn amser ar gyflog uwch). Roedd hynny'n awgrymu, o bosib', bod tai haf yn dod â mwy o fudd i'r wir boblogaeth leol, drwy waith addasu ac adnewyddu, ayb, nag ydi, e.e. gwestai neu feysydd carafanau sydd ddim mewn perchnogaeth leol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y credid bod cael pobl yn aros dros dro mewn gwesty neu'n gwersylla yn dod â mwy o fudd i'r economi ymweld ac yn golygu nad yw tŷ allai gael ei ddefnyddio fel cartref i deulu yn cael ei dynnu allan o'r farchnad dai.
- Efallai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb, gan fod y mater tai haf yn gymhleth, a byddai'r Aelod Cabinet yn hapus i edrych i mewn i hynny.

Mynegwyd gobaith y byddai'r ymchwil yn y maes yn cwmpasu'r agweddau yma.

Awgrymwyd nad yw'r un sector economaidd mor ddibynnol ar lafur plant na'r sector twristiaeth a bod hyn yn awgrymu diffyg gweithlu yn lleol, neu fod pobl leol ddim yn gweld y rhain fel swyddi da. Nodwyd y dymunid gweld sector twristiaeth fechan mewn

perchnogaeth leol ac yn cynnig cyflogau uchel, ond ni chredid ein bod yn ddigon pendant yn ein trafodaethau ynghylch y maes yma o safbwynt yr hyn y byddem yn dymuno ei weld. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gwaith ond megis dechrau ar gynllun a gweithredu partneriaeth hollol newydd sy'n mynd i ganolbwyntio ar geisio sicrhau'r economi ymweld cynaliadwy y dymuna'r partneriaid ei gweld.
- Nad oedd hynny'n mynd i ddigwydd dros nos a bod rhaid cyfathrebu i gymunedau, aelodau a busnesau mai proses fydd hon.
- Nad oes yna lawer o ymchwil yn bodoli o ran effaith twristiaeth ar y Gymraeg neu faint o Gymry Cymraeg sy'n cael eu cyflogi o fewn y sector twristiaeth, a thrwy'r bartneriaeth yma, roedd trafodaethau diddorol a chyffrous yn agor gyda Phrifysgol Bangor o ran y cyfleoedd ymchwil a chydweithio y gellir eu cynnig.
- Y credid bod cyflogaeth i bobl ifanc dros yr haf yn beth eithaf iach o fewn y sector, cyn belled ag nad ydi'r bobl ifanc hynny yn cael eu hecsbloetio a'i fod yn cyd-fynd â deddfwriaeth cyflogaeth. Roedd yn creu cyfleoedd i bobl ifanc gael profiad gwaith a thâl amdano.
- Trwy weithio gyda Grŵp Llandrillo Menai e.e. gellid dangos y gallai cyflogaeth yn y maes twristiaeth gael ei weld fel gyrfa, yn hytrach na gwaith tymhorol yn unig.
- Bod yna gwmnïau yng Ngwynedd sy'n cyflogi'n dda iawn o fewn y sector economi ymweld a bod yna ddiddordeb a gweithgaredd cynyddol o fewn y sector twristiaeth gymunedol o fewn y sir hefyd sy'n awyddus i weld yr economi ymweld yn cael ei berchenogi gan gymunedau lleol, yn darparu cyflogaeth dda i bobl yn lleol, ac yn rhoi lle i'r Gymraeg a diwylliant yn lleol hefyd.

Nodwyd yr edrychid ymlaen at weld ymchwil sy'n mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd.

Nodwyd na all y bobl sy'n gweini yn y gwestai a'r bwytai fforddio mynd allan i fwyta gan fod eu cyflogau mor isel, ac oni cheir gwaith arall heblaw am dwristiaeth, ac ati, bydd y bobl leol wastad yn dlawd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na dderbynnid y sylw ein bod wastad yn mynd i gadw pobl leol yn dlawd a bod y cynllun hwn yn rhan o broses o gael economi gwell, economi mwy cynaliadwy, swyddi gwell a hyfforddiant gwell.
- Nad oedd yr holl atebion ar gael yma, ond roedd y weledigaeth yma a cheisid symud i'r cyfeiriad cywir.

Nodwyd mai Meirion / Dwyfor yw'r ardal dlotaf o ran incwm yn y DU, ond bod atyniad fel Parc Beicio Dyfi yn enghraifft o dwristiaeth gynaliadwy, gan ei fod yn dod â llawer o ymwelwyr ac arian i'r ardal, gyda phobl yn aros mewn llety gwely a brecwast ar ffermydd, ayb. Awgrymwyd nad oedd Gwynedd yn gwneud llawer iawn i helpu'r economi yn Ne Meirionnydd. Cyfeiriwyd at gwmni oedd wedi symud o'r ardal i Bowys a holwyd faint o gydweithio oedd yn digwydd rhwng yr Adrannau Cynllunio ac Economi. Mewn ymateb, nodwyd:-

- O ran polisi cynllunio yn gyffredinol, y bu'r Gwasanaeth Cynllunio yn rhan o ddatblygu'r Cynllun Strategol, a rhannwyd y cynllun gweithredu gyda'r Adran yn ogystal.
- Bod yna bolisi cynllunio yn ei le ar hyn o bryd a bod y Cynllun Datblygu Lleol yn y broses o gael ei adolygu. Gan hynny, gobeithid y byddai'r egwyddorion a'r Cynllun Strategol yn dylanwadu ar bolisi cynllunio i'r dyfodol.
- Mai bwriad y cyrff gwahanol, wrth ddod at ei gilydd, oedd cael dylanwad ar y polisïau cynllunio wrth iddynt gael eu datblygu.
- Bod Awdurdod y Parc hefyd ar fin adolygu Cynllun Datblygu Eryri a gobeithid y byddai'r egwyddorion yn dylanwadu ar y broses o adolygu'r cynllun hwnnw hefyd.

Holwyd sut yn ymarferol y gellid atal y torfeydd rhag ymweld â'r ardal yn ystod gwyliau'r haf a'u perswadio i ddod, ee ym mis Tachwedd. Awgrymwyd, yn hytrach na datblygu a hyrwyddo twristiaeth, bod angen sôn am leihau twristiaeth hyd yn oed. Credid y gallai Cymru werthu ei hun ar raddfa lawer llai, ond i safonau uwch. Ni chredid bod digon o bwyslais ar hyfforddiant yn y Cynllun Gweithredu ac roedd yn ofynnol i ni uwchraddio ein hunain er mwyn bod yn gynaliadwy ac edrych ar ôl ein pobl ein hunain, gan sicrhau'r elfennau ieithyddol hefyd.

Mynegwyd pryder na sicrhawyd cyllid ar gyfer y gwaith ymchwil da sydd yn yr arfaeth. Cyfeiriwyd yn benodol at yr ymchwil i effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg, sydd i fod i adrodd yn ôl ym mis Mawrth 2025, a holwyd pa mor ymarferol oedd hyn yn wyneb yr ansicrwydd ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol.

Mynegwyd peth amheuaeth ynglŷn â'r mesuryddion sy'n tynnu sylw at y ffaith bod pobl leol yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â thwristiaeth, a holwyd beth yn union a olygai hynny. Awgrymwyd bod rhaid meddwl am rywbeth llawer mwy slic i gael gweld gwir fudd yn dod allan o dwristiaeth.

Mynegwyd y farn bod yna orbwyslais ar Ogledd Eryri a llechi yn y Cynllun a bod rhaid cofio am Feirionnydd a Phen Llŷn hefyd. Mewn ymateb, nodwyd bod y pwynt yn un pwysig ac y pwysleisid pwysigrwydd lledaenu'r budd ar draws y sir gyfan.

Mynegwyd pryder bod yr adroddiad wedi mynd i bob cyfeiriad heblaw'r cyfeiriad cywir. Amlygwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd cael y budd gorau i Wynedd o'r diwydiant twristiaeth, a bod harddwch Gwynedd yn golygu bod y diwydiant twristiaeth am fod yma, waeth beth sy'n digwydd. Nodwyd bod y diwydiant twristiaeth yn dod â budd aruthrol i'r ardal, ond nid oedd hynny i ddweud y gallai fod yr ateb i'r argyfwng economaidd sy'n wynebu Gwynedd.

Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r cynllun a nodwyd yr edrychid ymlaen at weld mwy o ymchwil yn y maes. Mewn ymateb, nodwyd y gwerthfawrogid y pwyntiau a godwyd, ac y byddai'r Adran yn sicr o fynd ar eu holau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Gofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wneud pob ymdrech i ymgynghori gyda'r cynghorwyr sir lle mae hynny'n briodol.**
3. **Bod yr Adran Economi a Chymuned, wrth wneud gwaith ymchwil, yn edrych ar y materion penodol a godwyd gan y pwyllgor ynglŷn â data ac ati.**

**11. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2024-25**

Cyflwynwyd – blaenraglen y pwyllgor ar gyfer 2024/25.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2024-25.**

**12. CYFARFOD HERIO PERFFORMIAD CYLLID**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Ymgynghorydd Craffu yn gwahodd y pwyllgor i enwebu aelod i gynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd Herio Perfformiad yr Adran Gyllid yn lle'r Cynghorydd Paul Rowlinson sydd bellach wedi ymddiswyddo o'r pwyllgor yn dilyn ei benodiad yn Aelod Cabinet Cyllid.

**PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd Cai Larsen i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yng Nghyfarfodydd Herio Perfformiad yr Adran Gyllid.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 2.40yp.

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** |
| DYDDIAD | **17 Hydref 2024** |
| TEITL | **Adroddiad Cynnydd - Presenoldeb ac Ymddygiad disgyblion Ysgolion Gwynedd** |
| RHESWM DROS GRAFFU | **Wedi ei gynnwys yn y ddogfen gweithdy blynyddol** |
| AWDUR | **Ellen Rowlands, Rheolwr Cynhwysiad Adran Addysg** |
| AELOD CABINET | **Cynghorydd Beca Brown** |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1. Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i dderbyn **diweddariad** ar gynnydd yr Adran Addysg mewn ymateb i argymhellion Adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd (Mehefin 2023) mewn perthynas â phresenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion y sir.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1. Roedd Adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd (Mehefin 2023) yn nodi'r argymhellion canlynol yng nghyd-destun presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr:

1. Gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion
2. Cryfhau'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno

2.2. Bwriad yr adroddiad yma yw adrodd ar y camau sydd wedi eu cyflawni yn erbyn yr argymhellion yma, gan roi cyfle i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ystyried oes cynnydd digonol wedi bod i

- wella presenoldeb ac ymddygiad o fewn ysgolion Gwynedd
- weithredu ar ganfyddiadau'r gwaith sydd wedi edrych ar ddefnydd o arian cynhwysiad o fewn yr ysgolion
- heriau a chyfleoedd yn y maes cynhwysiad.

**3. Crynodeb a'r materion allweddol**

3.1. Fe gynhaliodd Estyn arolygiad o wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd (Mehefin 2023)

3.2. Yn sgil yr arolygiad amlygwyd yr angen i gryfhau'r ddarpariaeth er ymateb i anghenion disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ynghyd â sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno.

3.3. Yn sgil hynny yn ystod Tachwedd/Rhagfyr 2023, comisiynwyd Mrs Caroline Rees (a oedd wedi adolygu'r Gwasanaeth Cynhwysiad yn 2019/20) i gynnal arolwg manwl o'r Gwasanaeth Cynhwysiad gan gyflwyno argymhellion ar sut i gryfhau'r ddarpariaeth. Roedd canfyddiadau Adroddiad Caroline Rees yn adleisio argymhellion Estyn, sef:

- Yr angen i'r Awdurdod Lleol weithio gydag arweinwyr ysgolion i gyd-lunio strategaeth cynhwysiad effeithiol ledled y sir o ran darpariaeth yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol sy'n cofleidio egwyddorion allweddol eglurder diben, perchnogaeth, sicrhau ansawdd a dilyniant.
- Darganfod lleoliadau addas ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysgol.

3.4. Bellach mae Bwrdd Prosiect wedi sefydlu i adnabod opsiynau i gwrdd â'r argymhellion rheiny.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

### Gweithredu'r argymhellion

**PRESENOLDEB**

4.1. Ein canllawiau presenoldeb allweddol yw Canllawiau Llywodraeth Cymru 'Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan' (Tachwedd 2012). Mae'r ddogfen yn darparu safonau ac arweiniad i ymarferwyr er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ymarfer ledled Cymru. Mae hefyd yn anelu at alluogi Cynghorau ac ysgolion i ddarparu gwasanaethau sy'n gyson, yn hygyrch ac o safon uchel.

4.2. Cyhoeddwyd "Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi" sef canllawiau gwella ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion ym mis Mehefin 2023 i gefnogi ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, rhieni/gofalwyr ac Awdurdodau Lleol i gynyddu lefelau ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr gan amlinellu dulliau gweithredu pan fydd absenoldebau'n gwaethygu.

4.3. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae gwella presenoldeb wedi bod yn ffocws cyson i Gyngor Gwynedd. Mae'r cysylltiad rhwng presenoldeb da a dysgu yn glir. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i wella presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf gan ddyrannu oriau Swyddogion Lles ychwanegol drwy Grant Presenoldeb Llywodraeth Cymru i dargedu gwella presenoldeb unigolion penodol o fewn ysgolion yn enwedig disgyblion a oedd ym Mlwyddyn 11.

4.4. Fodd bynnag, er y bu gwelliant dros amser, mae llawer o waith i'w wneud i gau'r bwlch ymhellach ac i atgyfnerthu gwelliannau mewn tuedd presenoldeb cadarnhaol, gan gynnwys gostyngiad mewn absenoldeb parhaus.

| ARGYMHELLION | CAMAU A WEITHREDWYD | EFFAITH |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Gwella trefniadau monitro presenoldeb | Mae'r Adran eisoes yn casglu data ac yn rhedeg adroddiadau yn wythnosol ond dros y flwyddyn ddiwethaf mae<br>• gwell defnydd o ddata rhwng yr Awdurdod ac Ysgolion<br>• cydweithio â gwasanaethau eraill wedi cryfhau<br>• gwelliant mewn llinellau atebolrwydd gydag ysgolion<br>• datblygiad pellach mewn arweinyddiaeth strategol<br>• sicrwydd bod cefnogaeth a her briodol ar waith. | Cysondeb ar draws y Sir<br>Adnabyddiaeth buan o unigolion i dargedu<br>Ysgolion yn hunan arfarnu yn gyson |
| Gwerthuso presenoldeb disgyblion | Bu Swyddogion Lles dros y flwyddyn ddiwethaf yn craffu yn fanwl ar gofrestrau ysgolion. Galluogodd y cynnydd mewn Swyddogion Lles i wneud gwaith targedu a bu hyn yn lwyddiant gyda nifer o ysgolion yn adrodd yn bositif ar y gefnogaeth hon.<br>Mae Polisi Presenoldeb bellach wedi ei adolygu a'i rannu gydag ysgolion. | Cynnydd mewn presenoldeb 56% o'r grwpiau a dargedwyd<br>Ymateb yn gynt i achosion<br>Cyswllt gyda theuluoedd |
| Hyrwyddo presenoldeb da | Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod cymorth priodol ar waith i ddisgyblion sy'n ei chael hi'n anodd mynychu'r ysgol. | Gwelliant mewn presenoldeb unigolion .<br>Cyd -weithio gwell |

**Lle 'da ni arni?**
**Cymhariaeth o 2022/23 â'r flwyddyn academaidd 2023/24**


4.5. Mae cyfartaledd presenoldeb dros y flwyddyn academaidd 23/24 yn 89.1% i fyny o 88.7% ym mlwyddyn academaidd 2022/23.


4.6. Canran presenoldeb grwpiau penodol

| | |
|---|---|
| Presenoldeb Cinio am ddim | 85.04% |
| Disgyblion sydd a ADY | 86.99% |
| Plant mewn gofal | 90.35% |

4.7. Roedd Gwynedd ychydig yn uwch na'r canran cenedlaethol ar draws y sector uwchradd, mae'r lefelau o absenoldebau awdurdodedig yn parhau i gael eu hadrodd mewn perthynas â salwch a materion lles emosiynol unigolion .

| | Presenoldeb | Awdurdodedig | Anawdurdodedig |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 89.1% | 8.4% | 2.5% |
| Cymru | 89% | 7.3% | 3.6% |



4.8. Ledled Cymru, mae presenoldeb mewn ysgolion wedi dirywio ers dychwelyd i'r ysgol yn dilyn y pandemig ac yn araf yn gwella. Mae gwella presenoldeb ysgol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol a'i ysgolion. Er bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar bresenoldeb, mae gwelliannau yn 2023/24, ac rydym yn obeithiol y bydd y Strategaeth a'r ffocws ar bresenoldeb yn cefnogi gwelliant parhaus yn y blynyddoedd i ddod.

4.9. Mae presenoldeb ysgol rhagorol yn allweddol i gynyddu canlyniadau addysgol. Yn ogystal, mae ysgolion yn chwarae rhan ganolog wrth ddiogelu plant a phobl ifanc gan sicrhau eu lles cymdeithasol ac emosiynol cadarnhaol, na fyddai'n bosibl heb eu hymgysylltiad ag addysg. Byddwn yn parhau i gysylltu â'r holl rhanddeiliaid i sicrhau bod presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Byddwn hefyd yn parhau yn ein huchelgais i gynyddu presenoldeb trwy berthynas waith agos â'n hysgolion a'n cymunedau ysgol ac yn parhau gyda'r agwedd aml-asiantaeth i gefnogi'r plentyn, teulu a'i ysgol.

**YMDDYGIAD**

4.10. Canllawiau 'Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion' (diwygiedig Ebrill 2024 ) yw'r ddogfen sydd yn darparu canllawiau ar wahardd disgyblion dros dro ac yn barhaol, gan gynnwys cyfrifoldeb penaethiaid, llywodraethwyr, paneli adolygu annibynnol ac awdurdodau lleol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau ymddygiad a disgyblaeth mewn ysgolion sy'n rhoi cyngor i ysgolion ar weithredu polisi ymddygiad i greu diwylliant ysgol gyda disgwyliadau uchel o ymddygiad.

4.11. Mae'r penderfyniad i wahardd dysgwr yn barhaol yn un difrifol. Fel arfer, hwn fydd y cam olaf mewn proses ar gyfer delio â throseddau disgyblu yn dilyn ystod eang o strategaethau eraill sydd wedi cael eu rhoi ar waith heb lwyddiant. Mae'n gydnabyddiaeth gan yr ysgol ei bod wedi dihysbyddu'r holl strategaethau sydd ar gael ar gyfer delio â'r dysgwr a dylid ei ddefnyddio fel dewis olaf fel arfer.

| ARGYMHELLION | CAMAU A WEITHREDWYD | EFFAITH |
|---|---|---|
| Cryfhau'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno | Ym mis Tachwedd 2023, comisiynwyd Caroline Rees i gynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Cynhwysiad gan gynnwys darpariaeth cynhwysiad penodol ysgolion.<br>Er cyfarch argymhellion Estyn a'r adolygiad, sefydlwyd Bwrdd Prosiect (Chwefror 2024) yn cynnwys Uwch Swyddogion yr Awdurdod, Penaethiaid | Awdurdod ac Ysgolion yn gweithio yn agosach .<br>Cynllunio ar y cyd<br>Rhannu'r weledigaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | Ysgolion Uwchradd, Rheolwr Gwasanaethau Plant. | |
| Darganfod lleoliadau addas ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysgol | Trafodaethau'n fewnol yn yr Adran i ystyried opsiynau posib o fewn yr adnoddau a'r asedau sydd gan y Cyngor ar gyfer lleoliad ar gyfer darpariaethau y tu allan i'r ysgol | |

**Data Gwaharddiadau**

4.12. Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad a gwerthusiad o ddata gwahardd dros gyfnod o 2 flynedd i alluogi aelodau i graffu ymhellach ar y cynnwys .

**Uwchradd**

| **Blwyddyn** | **Penodol** | | | | **Parhaol** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer Disgyblion** | **Nifer Cyfnodau** | **Cyfanswm Dyddiau** | **Nifer o ysgolion yn gwahardd** | |
| 2022/2023 | 452 | 823 | 1,995.5 | 14 | 44 ( 8 ysgol ) |
| 2023/2024 | 470 | 869 | 2,733 | 14 | 48 ( 9 ysgol) |

**Cynradd**

| **Blwyddyn** | **Penodol** | | | | **Parhaol** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer Disgyblion** | **Nifer Cyfnodau** | **Cyfanswm Dyddiau** | **Nifer o ysgolion yn gwahardd** | |
| 2022/2023 | 47 | 67 | 151 | 23 | 1 |
| 2023/2024 | 57 | 118 | 325.5 | 25 | 3( 3 ysgol) |

**Gwaharddiadau Parhaol**

| | **22/23** | **23/24** |
|---|---|---|
| Merched | 16 | 12 |
| Bechgyn | 30 | 41 |

| Ysgolion | 22/23 (Nifer disgyblon) | 23/24 (Nifer disgyblion ) |
|---|---|---|
| Arfon | 36 | 42 |
| Meirionydd | 2 | 4 |
| Dwyfor | 7 | 5 |

4.13. Mae 60% o'r gwaharddiadau parhaol yn ymwneud ag ymddygiad aflonyddgar parhaus a'r gweddill mewn perthynas â cham-drin geiriol/ymddygiad bygythiol tuag at ddisgyblion/ aelodau staff, cyflenwi cyffuriau ac ymosodiadau difrifol ar ddisgyblion eraill.

4.14. Fe nodwch o'r wybodaeth uchod bod heriau amlwg yn parhau wrth fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol disgyblion yn y cyfnod ar ôl y pandemig ac nad oes cynnydd sylweddol wedi ei wneud ond mae camau mewn ymateb i'r sefyllfa. Mi fydd hyn yn gofyn am ymrwymiad, creadigrwydd ac uchelgais a rennir i wella cyfleoedd bywyd ein dysgwyr mwyaf agored i niwed a heriol, i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein cenhadaeth fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor er rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc ac mae hyn yn gryfder mawr yng ngwaith y Bwrdd Prosiect.

4.15. Mae'r Gwasanaethau Cynhwysiant yn parhau i weithredu amrywiaeth o fentrau lles ac ymddygiad gyda chefnogaeth cyllid grant Llywodraeth Cymru (sydd yn ychwanegol i'r gyllideb graidd). Wrth gydnabod y cysylltiad rhwng lles ac ymddygiad, defnyddiwyd cyllid grant i gyflwyno hyfforddiant i ysgolion i gefnogi disgyblion sydd ag anhawster mynychu ysgol ar sail emosiynol, cefnogi ysgolion yn y maes llythrennedd emosiynol a chyfrannu at sesiynau ysgolion sydd yn wybodus o drawma.

**5. Ymgynghori**

5.1. Sefydlu grŵp i adolygu'r Strategaeth bresennol gyda rhanddeiliaid.

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

6.1. Mae cefnogi dysgwyr sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol i gyflawni'r canlyniadau addysgol gorau posib yn cefnogi'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028 – Gwynedd Yfory - Rhoi'r Cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

6.2. Yr Amcanion Llesiant yw galluogi ein plant a phobl ifanc i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn unigolion moesegol, uchelgeisiol a hyderus, i hyrwyddo annibyniaeth, bywydau iach a llwyddiannus i bawb a'u galluogi i gyflawni eu potensial a ffynnu. Mae hyn hefyd yn cefnogi'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a Nodau Lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n sail i weledigaeth ac arferion gwaith y gwasanaeth.

6.3. Yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yw y byddai'r cynnig yn diogelu anghenion addysgol tymor hir plant a phobl ifanc i wneud y gorau o'u galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau.

*A ydych wedi **cynnwys** trigolion/defnyddwyr gwasanaeth? Os nad ydych, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?*

| | Amserlen |
|---|---|
| Ymgyrch bresenoldeb yn seiliedig ar ymgynghoriad â disgyblion, ysgolion a rhieni. | Hydref- Tachwedd |
| Cydweithio gyda'r penaethiaid i greu perchnogaeth o'r strategaeth cynhwysiad a'r ffordd ymlaen. | Cwblhau erbyn Gorffennaf 25 |

*A ydych wedi ystyried **cydweithio**?*

- Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu gydag aelodaeth o ysgolion (Penaethiaid), Gwasanaethau Plant (Pennaeth Cynorthwyol), Gwasanaeth Ieuenctid.
- Yn ogystal, ar lefel weithredol, cydweithio'n agos gyda Gwasanaethau Plant (Rheolwr /arweinyddion timau), Gwasanaeth Iechyd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Gyrfa Cymru, Heddlu a'r Coleg (Grŵp Llandrillo Menai).

*Beth sydd wedi ei wneud neu fydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?*

- Parhau i weithio yn amlasiantaethol.
- Gwerthuso effaith yn rheolaidd.
- Adnabod patrymau sydd yn codi.

*Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?*

- Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc.
- Pawb yn perchnogi.
- Cydweithio.

*Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?*

- Mae'r amrediad o gefnogaeth sydd ar gael yng Ngwynedd yn peri newid gwirioneddol i blant a phobl ifanc ac o ganlyniad yn cyfrannu at atal problemau rhag gwaethygu yn y dyfodol a lleihau y gofyn am gefnogaeth yn yr hirdymor.

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan fod cynnwys yr adroddiad hwn at ddibenion gwybodaeth yn unig.

7.2. Yr effaith ar Nodweddion Gwarchodedig a'r Gymraeg yw y byddai'r cynnig yn gwella'r canlyniadau i bob disgybl, gan gynnwys y rhai sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**8. Camau Nesaf**

8.1. Mae gwaith ar gychwyn i sefydlu Protocol Tîm o Amgylch yr Ysgol fydd yn fframwaith mwy cydweithredol ar gyfer mynd i'r afael â phryderon disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiadol a phresenoldeb gwael. Y nod yw darparu cymorth a her i ysgolion lle nodwyd pryderon sylweddol mewn perthynas â rheoli ymddygiad a gwaharddiadau.

8.2. Yn ogystal yr Adran wedi buddsoddi mewn adodd A.I (Ed-Bot) fydd yn dadansoddi data presenoldeb yn wythnosol. Bydd hyn yn ein galluogi yn y tymor byr i adnabod patrwm o absenoldebau isel mewn codau post penodol, newidiadau mewn canran a phatrymau sydd yn ymddangos er ein galluogi i dracio ar amser real ac i fod yn fwy rhagweithiol.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 17.10.24 |
| **TEITL** | Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory. |
| **AWDUR** | Sioned Owen Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar |
| **AELOD CABINET** | Beca Brown |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Mae trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar wedi ei adnabod fel un o brif brosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28.

Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posib i'w cyfnod mewn addysg.

Bydd y Cyngor yn cyflawni'r prosiect hwn drwy gydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin i drawsnewid y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posib i'w cyfnod mewn addysg.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Beth yw'r camau y bwriedir eu cymryd er mwyn trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar?
- Beth yw'r amserlen a'r cerrig milltir allweddol ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth?
- Sut bwriedir cyllido trawsnewid y gwasanaeth blynyddoedd cynnar?

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

Diweddariad o ran y rhaglen waith

**4. Cefndir / Cyd-destun**

4.1 Mae Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar yn flaenoriaeth Gwynedd Yfory, Cynllun y Cyngor 2023-28

4.2 Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar wedi bod yn gweithio'n rhanbarthol ers 2023 i drawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar ar y cyd gyda'r Llywodraeth. Yn siomedig bu i'r Llywodraeth stopio ariannu'r prosiect ddiwedd Mawrth 2024. Rhan o'r gwaith yma oedd rhannu arfer dda, cydweithio ar flaenoriaethau fel Iaith a Llefaredd a chynnal hunanasesiad 'Early Intervention Foundation' – matrics aeddfedrwydd Blynyddoedd

Cynnar. Roedd hunanasesiad Gwynedd, yn bennaf, yn Gynnydd Cynnar sy'n nodweddiadol o ardaloedd lleol sydd wedi ymrwymo i weithredu ac sydd wedi dechrau datblygu eu rhaglen ond sydd eto i weld manteision eu gwaith.

4.3 Yn ystod y cyfnod nesaf bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar y Blynyddoedd Cynnar fel blaenoriaeth hefyd sef:

- Siarter blynyddoedd cynnar gyda blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac iaith a rennir. Nodi ein dehongliad o ganllawiau cenedlaethol a sut y gallwn fodloni anghenion plant yn lleol yn y ffordd orau. Yn cynnwys cynllun ar y cyd o sut y byddwn yn defnyddio cyllid.
- Strategaeth ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn gysylltiedig â Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru. Golyga hyn edrych ar gynllunio'r gweithlu, cymwysterau, sgiliau, hyfforddiant, cadw staff a datblygiad proffesiynol.
- Cynllun cyfathrebu i rannu ein gweledigaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, negeseuon allweddol a manylion y gefnogaeth sydd ar gael.
- Gwella trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella sefydlogrwydd a chysondeb y ffrydiau ariannu.

4.4 Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar wedi llunio rhaglen waith i gyfarch y gwaith ond ers i'r Cyllid orffen rydym wedi colli adnodd staff i yrru'r rhaglen waith felly yn gweithredu ar rediad arafach i gyd fynd gyda capasiti staff presennol o fewn yr Uned. Mae'r Uned ar hyn o bryd yn mynd trwy broses ailstrwythuro hefyd.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nifer o gyfleoedd ymgynghori wedi digwydd i gasglu barn teuluoedd a rhan-ddeiliaid wrth edrych ar feysydd gwahanol i drawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar

- ***Addysg Feithrin - adroddiad Celyn****. O fewn yr adroddiad nodir sawl ffactor sydd yn bwysig i deuluoedd Gwynedd fel mynediad, costau fforddiadwy a darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg*
- ***Iaith, Siarad a Chyfathrebu – adroddiad Dr Ceryl Davies****. O fewn yr adroddiad nodir nifer o argymhellion ar gyfer y maes fel sefydlu llwybr mynediad, hyfforddi staff a gwella trefniadau cydweithio hefo Iechyd.*
- ***Cefnogaeth Amenedigol – adroddiad Social Value Cymru****. Nodir canlyniadau cadarnhaol i'r peilot wrth gefnogi llesiant teuluoedd o fewn y cymunedau ond bod angen mwy o amrediad o gefnogaeth gan gynnwys sesiynau sensori.*

5.2 Sylwadau ac argymhellion yr adroddiadau uchod yn bwydo i'r rhaglen waith trawsffurfio yn lleol ac yn rhanbarthol

## 6. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

6.1 Bydd asesiadau effaith yn bwydo a llywio’r penderfyniadau maes o law.

## 7. Camau Nesaf

- Parhau i weithio ar y rhaglen waith
- Cynnal trafodaethau a cheisio penderfyniadau
- Ymgynghori ar y penderfyniadau.
- Llunio Strategaeth Blynyddoedd Cynnar

**Gwybodaeth Cefndir**

**Atodiadau**

*Atodiad 1 - Rhaglen waith trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar*

**Atodiad 1 – Rhaglen Waith Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar 2023-25**

| | Blaenoriaethau Trawsffurfio | Blwyddyn 1 | Statws | Blwyddyn 2 – Camau nesaf |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cynnal Gweithdy gyda'n Partneriaid i hunanasesu'r maes blynyddoedd cynnar yng Ngwynedd gyda chefnogaeth yr 'Early Intervention Foundation' | Gweithdy wedi ei gynnal gyda'n partneriaid Ebrill 2023<br>Adroddiad mewn lle gan yr 'Early Intervention Foundation' | Wedi gorffen | |
| 2 | Derbyn argymhellion 'Early Intervention Foundation 'a llunio cynllun gweithredu ar gyfer siapio Strategaeth newydd i'r Blynyddoedd Cynnar a threfniadau cydweithio gyda'm Partneriaid | Wrth i'r cyfnod ariannu o drawsffurfio rhanbarthol orffen ddiwedd Mawrth 24 gwnaethpwyd adolygiad pen desg ar yr hunan asesiad a gwelwyd cynnydd ers y gweithdy. Anodd hwyluso'r gwaith ers hyn yn sgil ymadawiad y swyddog trawsffurfio ac mae'r Uned yn mynd trwy ailstrwythuro sydd yn ei hun yn ateb gofyn i ail siapio'r gwasanaeth i gyrraedd y nod yn fwy effeithlon.<br>Cyfarfodydd rhanbarthol yn parhau ac wedi blaenoriaethau hyfforddiant Oxford Brain, strategaeth gweithlu'r blynyddoedd cynnar a rhannu arfer dda.<br>Rhaglen waith gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru fel Drafftio Siarter Blynyddoedd Cynnar a chydweithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio sefydlogi a chysoni ariannu'r sector.<br>Canolbwyntio ar blant a phobl ifanc: y blynyddoedd cynnar (cydweithredfagogleddcymru.cymru) | Cynnydd rhannol | Gorffen ail strwythuro'r gwasanaeth<br><br>Cytuno ar gynllun gweithredu Blynyddoedd Cynnar y Cyngor<br>Cytuno ar atebolrwydd strategol y gwaith ar y cyd gyda Iechyd<br>Llunio strategaeth Blynyddoedd Cynnar ar y cyd gyda'm Partneriaid |
| 3 | Adolygu a datblygu platfformau rhannu Gwybodaeth | Casglwyd barn teuluoedd Gwynedd drwy ymgynghorydd allanol cwmni Celyn<br>Comisiynwyd cwmni 'UK Academia' i gynghori ar sefydlu cynllun Cyfathrebu a Marchnata i'r Uned a mae'r tîm yn gweithredu yr argymhellion ar hyn o bryd fel:<br>• Cydweithio gyda thîm safle we i ddatblygu Hwb Teuluoedd Gwynedd.<br>• Cynhyrchu podlediadau Cymraeg am y maes.<br>• Rhesymoli platfformau gwybodaeth bresennol yr Uned a datblygu tudalennau Facebook newydd e.e. grŵp caeedig y feithrinfa. | Ar y gweill yn dda | Gwaith ar y gweill ar gyfer sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen ar gyfer datblygu'r wefan Hwb Teuluoedd Gwynedd.<br>Trefniadau ar gyfer cynnal podlediadau Cymraeg wedi'i drefnu.<br>Gyda'r gwaith brandio bron yn ei le bydd y gwaith ail wampio platfformau gwybodaeth yn barod yn fuan.<br>Tîm Meithrinfa yn defnyddio Blossoms yn ogystal â rhieni ac mae yna lot o waith ar gyfer hyrwyddo defnydd o'r Family App(Dechrau'n Deg). |

**Atodiad 1 – Rhaglen Waith Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar 2023-25**

| | Blaenoriaethau Trawsffurfio | Blwyddyn 1 | Statws | Blwyddyn 2 – Camau nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | | • Defnydd o Blossoms a Family App(Dechrau'n Deg) i rannu gwybodaeth gyda teuluoedd | | |
| 4 | Mapio darpariaeth Iaith, Llefaredd a Chyfathrebu | Cynhaliwyd tri gweithdy i fapio'r ddarpariaeth a chomisiynu adroddiad werthuso. Parhau i weithredu ar argymhellion adroddiad gwerthuso gan Dr Ceryl Davies ar Iaith, Cyfathrebu a Llefaredd Blynyddoedd Cynnar Gwynedd a Môn.<br><br>Trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd wedi digwydd i gyd weithio ar yr argymhellion. Fforwm Iaith, Cyfathrebu a Llefaredd Blynyddoedd Cynnar Gwynedd a Môn wedi ei sefydlu. Bwlch amlwg o ran Therapyddion. Bydd ymgyrch recriwtio staff i'r gwasanaeth Therapi Iaith yn digwydd ar y cyd gyda'r Llywodraeth yn y cyfnod nesaf.<br><br>Parhau i weithredu i uwch sgilio staff a gweithredu egwyddorion strategaethau Siarad gyda Mi a chefnogi rhieni gydag anawsterau iaith a lleferydd ar draws Wynedd.<br><br>Gwaith mapio wedi digwydd o ran dosbarthiad gwaith grŵp a dipyn o waith peilota fel Caffi Babis a 'Live Music Now'.<br><br>Rhaglen ar waith i wneud lleoliadau gofal plant ac addysg feithrin yn leoliadau Gyfathrebu Cyfeillgar.<br><br>Trafodaethau i greu fidio/podlediad yn y Gymraeg am y pwnc ar y cyd gyda'r gwasanaeth Therapi Iaith. | Ar y gweill yn dda | Ymgyrch recriwtio<br>Cyfarfodydd y Fforwm<br>Cytuno rhaglen o ddarpariaeth ar draws y sir<br>Cyd gytuno i ofynion uwch-sgilio staff i gyd fynd gyda'r Llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan<br>Rhaeadru negeseuon Siarad gyda Fi gyda rhieni e.e Podlediad |
| 5 | Cefnogaeth Iechyd Meddwl Amenedigol | Buddsoddiad hyfforddiant rhiantu a chefnogi teulu i staff Blynyddoedd Cynnar – 'Triple P' gan gynnwys un 'Baby', 'Nurture Links Welcome to the World' a 'Millpond Sleep Management'wedi digwydd.<br><br>Ariannwyd dipyn o waith grŵp i beilota ymyraethau yn y cyfnod amenedigol mewn nifer o lefydd amrywiol o Wynedd. | Ar y gweill yn dda | Mapio gweithlu'r blynyddoedd cynnar i adnabod yr anghenion i'r Strategaeth.<br>Parhau i ariannu gwaith grŵp os bydd cyllid ar gael |

Atodiad 1 – Rhaglen Waith Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar 2023-25

| | Blaenoriaethau Trawsffurfio | Blwyddyn 1 | Statws | Blwyddyn 2 – Camau nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae Prosiect Hwiangerddi 'Live Music Now' yn Abermaw bellach wedi dod i ben. Roedd 8 teulu wedi cael bydd mawr o'r Prosiect yma gydag adborth positif iawn a sawl un wedi rhoi adborth ei fod o wedi cefnogi ei Iechyd Meddwl a hefyd wedi creu perthynas gyda rhieni eraill. Byddwn yn cynnal sesiwn Caffi Babis yn Abermaw hefyd mis nesaf. Yn dilyn adborth positif eto gan rieni sydd wedi mynychu sesiynau Caffi Babis ar y Lôn bydd sesiwn yn cael ei gynnal yn Abermaw a Porthmadog dros y cyfnod nesaf. Mae Caffi Babis wedi gweld yr angen yn ardaloedd ar draws Gwynedd yn dilyn ein sesiynau ni. Mae Pontio nawr yn ceisio am grant i allu cynnig fwy o sesiynau ar draws Gwynedd ac yn fwy rheolaidd, bydd swyddog Prosiect Trawsffurfio Blynyddoedd Cynnar y cyngor yn cefnogi nhw i wneud y gwaith mapio fel bod fwy o ardaloedd ar draws Gwynedd yn cael y cyfle i fynychu. Bydd rhaid gweithio hefo mwy o bartneriaid yn y cyfnod nesaf i geisio ymestyn y gefnogaeth yma a rhaeadru arfer dda. | | Tim Datblygiad Iaith i gynnal mwy o sesiynau gan ddefnyddio arfer dda o'r peilot |
| 6 | Cefnogaeth i Dadau | Hyfforddiant 'Perinatal Mental Health for Fathers' wedi ei rhedeg i staff Blynyddoedd Cynnar ar draws yr asiantaethau<br><br>Proses aflwyddiannus i benodi Swyddog Cefnogi Tadau. Rhewi penodi ar hyn o bryd gan fod ailstrwythuro o fewn yr uned. Cyfeirio i sesiynau 'Sut ma Dad' i gynnig cefnogaeth drwy gyfryngau cymdeithasol a hefyd mynychu sesiynau am ddim sydd yn cael ei gynnig gyda'r nos neu ar benwythnosau. | Ar y gweill yn dda | Ariannu sesiynau i dadau trwy'r darparwyr ar y fframwaith gweithgareddau |
| 7 | Toiledu | Bydd polisi mynediad ysgolion Gwynedd yn newid o fis Medi 2025 yn nodi fod disgwyl i blant sydd yn mynychu dosbarth Meithrin yn yr Ysgolion yng Ngwynedd wedi ei toiledu cyn cychwyn. Mae gwaith wedi cychwyn i baratoi rhieni am hyn . Adnoddau wedi ei rhannu gyda pob lleoliad gofal plant i rhannu gyda rhieni, gwybodaeth wedi ei rhannu ar cyfryngau cymdeithasol, fidio /podlediad Cymraeg wedi ei greu gan yr | Ar y gweill yn dda | Gwireddu'r Polisi mis Medi 2025<br>Parhau i rannu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael |

Atodiad 1 – Rhaglen Waith Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar 2023-25

| | Blaenoriaethau Trawsffurfio | Blwyddyn 1 | Statws | Blwyddyn 2 – Camau nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | | Uned Blynyddoedd Cynnar i gefnogi teuluoedd gyda'r newid o'r napi i'r poti, a hefyd pecynnau wrthi yn cael ei baratoi gyda adnoddau toiledu a napis "go iawn" fel pecyn toiledu wrth gyd weithio gyda'r adran Llyfrgelloedd ac amgylchedd. | | |
| 8 | Cyflwyno achos fusnes ar gyfer dod a holl becyn Dechrau'n Deg i 1 ardal newydd i gefnogi 25 o blant dan 4 | Ardal Dechrau'n Deg newydd – Deiniolen<br><br>Cyflwynwyd Achos Busnes i'r Llywodraeth i gynyddu baich achos y cynllun Dechrau'n Deg<br><br>Mae gwaith yn parhau yn Deiniolen- ardal sydd wedi ymuno a gwasanaeth Dechrau Deg er mwyn ehangu'r ddarpariaeth a'r gwasanaeth sydd ar gael i deuluoedd yn y pentref. Mae staff wedi cael eu penodi a'r teuluoedd wedi cael ei gofrestru.<br><br>Amlwg fod angen yn yr ardal a nifer o deuluoedd yn cael mewnbwn uwch sydd yn dynodi fod yr ardal cywir wedi ei ddewis ar gyfer y prosiect Dechrau'n Deg.<br><br>Mae Cylch Meithrin Deiniolen yn darparu gwasanaeth gofal plant ar hyn o bryd. Bydd adeilad newydd i'r gwasanaeth gan gynnwys swyddfa i'r tîm ac adeilad mwy ar gyfer y lleoliad gofal plant yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn gan ein bod wedi derbyn £590,000 o gyfalaf gan y Llywodraeth. Bydd hyn yn hwyluso'r cydweithio ac yn lleoli'r gwasanaethau yn hygyrch i'r teuluoedd yn Deiniolen. | Ar y gweill yn dda | Gorffen y prosiectau cyfalaf mawr erbyn Mawrth 2025<br><br>Tendro am ddarparwr gofal plant erbyn Rhagfyr 2024<br><br>Gosod prydles<br><br>Sefydlu swyddfa weithredol i staff Iechyd a Chyngor Gwynedd Ebrill 2025. |
| 9 | Ehangu darpariaeth gofal plant i rai 2 oed mewn 10 ardal newydd i gefnogi cychwyn gorau i 140 o blant. | Erbyn hyn rydym wedi ariannu 170 o blant ers i'r cynllun cychwyn ym mis Medi 2023 yn Abermaw 1 , Abermaw2, Bala, Dewi, Hendre, Hirael a Garth 2, Porthmadog Dwyrain, Porthmadog- Tremadog, Teigl a Trawsfynydd.<br>I gyfarch hyn rydym wedi datblygu Fframwaith caffael o ddarparwyr Gofal Plant Cymeradwy Gwynedd ac mae 83 Darpariaeth cofrestredig | Ar y gweill yn dda | Gorffen datblygu'r system data ar gyfer gweinyddu taliadau<br>Datblygiadau cyfalaf mawr<br>Mwy o ddarparwyr ar y rhestr cymeradwy<br>Gwella ansawdd y ddarpariaeth i gyrraedd gofynion Dechrau'n Deg<br>Parhau i farchnata'r cynllun |

**Atodiad 1 – Rhaglen Waith Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar 2023-25**

| | Blaenoriaethau Trawsffurfio | Blwyddyn 1 | Statws | Blwyddyn 2 – Camau nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | | wedi eu cymeradwyo ar y rhestr gyda 21 yn darparu gwasanaeth dwy oed drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br>Gwaith yn parhau i geisio cael mwy ar y rhestr drwy gydweithio gydag ein partneriaid Cwlwm sef Mudiad a Chlybiau Plant.<br>Mae'r tîm o Athrawon Ymgynghorol a'r Swyddogion Gofal Plant yn cefnogi'r lleoliadau newydd drwy ymweliadau, cefnogaeth a grantiau cychwynnol i fuddsoddi mewn adnoddau pwrpasol i sicrhau codi safonau i gyfarch gofyn Dechrau'n Deg.<br>I hwyluso gwaith o gadw data Dechrau'n Deg a phrosesu taliadau prydlon rydym wrthi'n gweithio gyda datblygwyr TG Cyngor Gwynedd a Sir Fflint i ddatblygu system i weinyddu'r gwaith yn fwy effeithlon.<br>Rydym wedi creu ffurflen gofrestru Dechrau Deg ar-lein a bydd hyn yn y diwedd yn gallu bwydo i'r system data.<br>Rhwystr mwyaf y cynllun yw cael manylion y plant 2 oed gan y Bwrdd Iechyd ac yr unig ateb ar hyn o bryd yw gofyn i Ymwelwyr Iechyd yr ardaloedd hyrwyddo ar ein rhan. Hyn yn amlwg yn effeithio ar y niferoedd sydd yn cymryd y cynllun oherwydd nid ydym yn gallu targedu'r teuluoedd yn uniongyrchol.<br>Bydd y buddsoddiadau Cyfalaf yn ardal Bangor - Ein Harglwyddes a Hirael yn cefnogi'r ymestyniad maes o law a chynnig mwy o lefydd yn y ddinas.<br>Ansicr os daw mwy o gyllideb gan y Llywodraeth i ymestyn i fwy o lefydd. | | |
| 10 | Cyflwyno Achosion Busnes unigol ar gyfer creu gofod gofal plant ac addysg feithrin ar gyfer 4 ardal newydd | Mae'r Uned wedi cyflwyno 4 achos busnes i'r Llywodraeth gydag Ein Harglwyddes, Deiniolen, Hirael a Bro Lleu Penygroes wedi derbyn cymeradwyaeth. Bydd angen buddsoddi'r arian erbyn Mawrth 2025 sydd yn heriol. Mae datblygiad Ysgol Treferthyr yn weithredol ers dechrau mis Medi 2024. Prosiect Tywyn wedi cychwyn a'r adeiladwyr ar y safle gyda'r bwriad i leoli gofal plant ar y safle yn y flwyddyn newydd. | Ar y gweill yn dda | Cydweithio a chwrdd gyda'r tîm Moderneiddio Addysg ac Eiddo yn y Byrddau Cyfalaf amrywiol i sicrhau gweithrediad y prosiectau gan ddilyn trefn rheoli prosiect a chynlluniau cyfathrebu |

**Atodiad 1 – Rhaglen Waith Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar 2023-25**

| | Blaenoriaethau Trawsffurfio | Blwyddyn 1 | Statws | Blwyddyn 2 – Camau nesaf |
|---|---|---|---|---|
| | | Buddsoddwyd dros £400k o grantiau cyfalaf bach i 46 o leoliadau gofal plant a chwarae yn ystod 23/24 i wella adeiladau ac amgylcheddau'r darparwyr ac yn ystod 24-25 byddem yn dosbarthu £470k i 52 lleoliad. Cyflwynwyd mynegiant o ddiddordeb i'r Llywodraeth ar gyfer cynigion cyfalaf posibl fydd tu hwnt i ddyddiad cau'r rhaglen gyfredol. | | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 17/10/24 |
| **TEITL** | Strategaeth Llesiant drafft |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Wedi ei gynnwys yn y ddogfen gweithdy blynyddol |
| **AWDUR** | Catrin Love Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Gail Warrington Rheolwr Iechyd Diogelwch a Llesiant |
| **AELOD CABINET** | Menna Trenholme |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1. Mae'r eitem hon wedi ei hadnabod yn y gweithdy blynyddol craffu fel eitem y credir y byddai yn amserol i'w chyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym Mis Hydref 2024.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1. Adnabuwyd y maes hwn i'w graffu gan fod pwysigrwydd llesiant staff wedi ei amlygu fwy fwy yn dilyn pandemig covid-19 a fod ôl-effaith y cyfnod eithriadol hwn yn dal i fod yn fyw iawn ymysg ein gweithlu. Mae costau absenoldebau staff oherwydd salwch hefyd yn her sylweddol sy'n gysylltiedig a'r maes yma, ac felly teimlwyd y byddai yn amserol craffu'r maes er mwyn cael sicrwydd fod trefniadau priodol mewn lle, ac y bydd y Strategaeth arfaethedig yn cyfarch yr heriau hyn.

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1. Mae'n allweddol fod gan y Cyngor fframwaith clir i fod yn cefnogi llesiant staff.

3.2. Byddai diffygion yn ein trefniadau i warchod llesiant staff yn codi risgiau ariannol a chyfreithiol i'r Cyngor, yn ogystal a methiant moesol i'w diogelu rhag niwed.

3.3. Mae'r Strategaeth llesiant hon wedi ei phlethu yn greiddiol i gynlluniau blaenoriaeth ehangach yng Nghynllun y Cyngor, trwy'r gwaith ar Gynllun Ffordd Gwynedd, a'r ffrwd gwaith 'Gweithlu iach a Bodlon' o fewn y Cynllun hwnnw.

3.4. Mae'r buddion o ymgorffori llesiant i bob agwedd o ddiwylliant y Cyngor yn cynnwys:

- Denu gweithwyr newydd
- Cadw ein gweithwyr presennol
- Gostwng cyfraddau absenoldeb salwch
- Gwella perfformiad a datblygiad ein staff.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1. Mae'r Strategaeth Llesiant ddrafft a gyflwynir ger eich bron yn ddogfen sy'n amlinellu blaenoriaethau y Cyngor o ran llesiant staff tros y blynyddoedd nesaf. Mae gan y Cyngor raglen waith fanwl ar gynnal a chefnogi llesiant staff ers blynyddoedd lawer, ac mae hynny wedi arwain yn ei dro at gydnabyddiaeth trwy achrediad y Safon Iechyd Corfforaethol gan Lywodraeth Cymru ble dyfarnwyd y wobr Aur sawl tro yn olynol. Yn anffodus, mae'r cynllun achrediad hwnnw bellach wedi dod i ben, ond mae cynlluniau mwy lleol hefyd wedi bod yn cael eu mabwysiadu megis yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol sydd wedi dal y Wobr Aur o ran cefnogaeth llesiant i staff gan sefydliad Buddsoddwyr mewn pobl.

4.2. Ers y cyfnod clo fodd bynnag, caiff ei gydnabod fod yr her o ran llesiant staff, a llesiant meddyliol yn boblogaeth yn gyffredinol wedi cynyddu'n arw. Mae ffigyrau diweddar gan sefydliad 'MIND' yn amlygu fod traean o'r boblogaeth oed gwaith o'r farn fod eu iechyd meddwl wedi dirywio yn sylweddol ers Mawrth 2000. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y niferoedd staff sydd wedi bod yn gwneud defnydd o gefnogaeth sydd ar gael trwy'r Cyngor, ple bu cynnydd sylweddol mewn defnydd y Gwasanaeth Cwnsela ayb. Gwyddom hefyd wrth gwrs fod ffigyrau absenoldebau salwch y Cyngor yn her gynyddol gyda'r gwir gost yn 23/24 wedi ei gyfrifo i fod yn £5.7 miliwn.

4.3. Wrth adlewyrchu ar y cyfnod eithriadol sydd wedi bod ers Mawrth 2000, mae'n deg dweud hefyd fod newid meddylfryd wedi bod o fewn y maes yn gyffredinol ynglŷn ac effeithiolrwydd rhai strategaethau llesiant, a chydnabyddiaeth nad yw unrhyw strategaeth llesiant yn mynd i gyrraedd ei llawn botensial pan yn bodoli yn ynysig o fewn sefydliad, heb fod yn plethu mewn yn greiddiol gyda cynlluniau blaenoriaethau eraill o ran diwylliant ac arweinyddiaeth. I'r perwyl hwn, mae 'Gweithlu Iach a Bodlon' bellach yn un o ffrydiau gwaith yng Nghynllun Ffordd Gwynedd sydd yn flaenoriaeth yng nghynllun y Cyngor 2023-28, ac mae'r strategaeth hon yn ddarn pwysig o'r gwaith hwnnw. Mae hyn yn gosod seilwaith gadarn i faterion llesiant staff fod yn greiddiol yn natblygiad diwylliant y Cyngor yn gyffredinol, a'r ffordd ydym yn datblygu ein Arweinyddiaeth a'n Rheolwyr i'r dyfodol. Yn syth, trwy fod wedi datblygu linciau agosach i waith ehangach ar ddiwylliant y cyngor, fe ymgorfforwyd rhan gyfan yn yr Holiadur Llais Staff eleni ar lesiant staff, ac mae'r canlyniadau wedi eu bwydo mewn i'r Strategaeth hon.

4.4. Yn Ddeddfwriaethol, mae dyletswydd statudol i fod yn cefnogi a chyfarch llesiant staff. Mae Deddfau Cyflogaeth, megis y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gosod gofynion caeth, ac yn wir, mae'r dyletswydd i fod yn gwarchod iechyd meddwl staff yn un sy'n cael sylw cynyddol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gosod gofynion o ran ddatblygu rhaglenni cynaliadwy sy'n cyfarch llesiant, economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

4.5. Trwy'r uchod, fe welir felly fod camau eisoes wedi eu cymryd i roi seilwaith i'r strategaeth hon, a'i bod yn amser am strategaeth newydd sy'n cyfarch gofynion yr oes ôl-bandemig, a'r heriau penodol a ddaw yn sgil hynny. Mae'r risgiau o beidio cael strategaeth yn dri-phlyg. Maent yn rai moesol o fod yn cyfrannu at ddirywiad llesiant staff, yn rai ariannol yn sgil y ffigyrau absenoldeb a'r risgiau o hawliadau iawndal yn erbyn y Cyngor, ac yn rai cyfreithiol o fod yn methu cyrraedd isafswm yr hyn y dylid fod yn ei wneud i warchod gweithwyr. Mae gweithlu iach wrth galon popeth y mae'r Cyngor wedi ei ymrwymo iddo o ran gwasanaethu'r Cyhoedd, ac mae'n ffactor sy'n plethu mewn i gymaint o ffrydiau gwaith blaenoriaeth eraill o ran

y gweithlu, megis denu a chadw staff, a'r drefn gwerthuso staff, er mwyn eu cael i ffynnu yn y gwaith a gallu rhoi'r Gwasanaeth gorau posibl i'r Cyhoedd.

4.6. Mae'r Strategaeth drafft yn seiliedig ar ymarfer da a'r ymchwil diweddaraf yn y maes yn genedlaethol a rhyngwladol, ac yn cyflwyno tri sylfaen i lesiant sydd yn seiliedig ar waith gan sefydliad Buddsoddwyr mewn Pobl. Fe welir ar ddiwedd y strategaeth y rhaglen waith am y flwyddyn i ddod, ac er y caiff sawl elfen o'r gwaith hynny ei gydlynu yn ganolog gan y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant, mae llwyddiant y strategaeth yn ddibynnol ar gydweithio ar lefel Cyngor cyfan ac ar bob lefel o'r Sefydliad, fel fo'r egwyddorion yn treiddio trwy'r sefydliad ac yn cyrraedd pob aelod staff ar y rheng flaen.

4.7. Mae'r cydlynu yn gorfforaethol ar y maes yma yn digwydd o fewn y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant. Caiff gwariant a'r angen am adnodd ei fonitro a'r asesu fel rhan o redeg y Gwasanaeth hwnnw, ac yn y gorffennol mae bidiau am fwy o arian wedi ei wneud, ac wedi eu cymeradwyo. Yn y blynyddoedd diweddar, mae hyn wedi cynnwys bid am arian un tro i fod yn targedu llesiant meddyliol o fewn y gweithlu, a bid arall am gynnydd parhaol i'r gyllideb ar gyfer Cwnsela Medra. Eto, cafodd hwn ei gymeradwyo. Byddwn yn monitro yn ofalus y cynnydd mewn cyfeiriadau i'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn sgil lansio polisi a system absenoldebau newydd er mwyn sicrhau fod yr adnodd yn ddigonol i ymdopi. Dylid nodi fod denu a cadw staff yn Nhîm Iechyd Galwedigaethol y Cyngor yn hanesyddol heriol.

## 5. Ymgynghori

5.1. *Cyn cael ei mabwysiadu yn derfynol bydd y ddogfen hon wedi ei ymgynghori arni yn y fforymau canlynol, yn ogystal â'r pwyllgor hwn:*

- *Tim Rheoli Corfforaethol*
- *Fforwm iechyd Diogelwch a Llesiant*
- *Panel Iechyd Diogelwch a Llesiant (sy'n cynnwys Aelodau Etholedig a'r Undebau llafur)*
- *Staff y Cyngor – mae canlyniadau'r Arolwg Llais Staff yn sylfaen i'w cynnwys*

5.2. Bydd maes o law yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet i gael ei chymeradwy yn derfynol.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1. Gan mai dogfen fewnol yn unig yw hon at bwrpas llesiant staff, nid oes ymgynghori gyda'r cyhoedd yn uniongyrchol wedi bod ar ei chynnwys, ond dylid nodi fod gweithlu'r Cyngor hefyd yn bobl Gwynedd ac yn ddefnyddwyr Gwasanaethau'r Sir, a'u bod wedi cael cyfle llawn i fynegi barn trwy'r holiadur llais staff.

6.2. Mae'r Strategaeth wedi ei selio ar yr egwyddor o gydweithio ar draws y Cyngor, ac yn ehangach. Mae gan sefydliadau allanol megis y Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gwasanaethau cefnogol arbenigol ydym yn eu comisiynu,

(sydd i gyd yn fusnesau lleol), rôl allweddol i lwyddiant y strategaeth. Fel enghraifft rydym wedi cysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn cael adborth ar ei rhaglen llesiant i'r dyfodol, ac rydym yn aros am ymateb i'r cais ar hyn o bryd.

6.3. Mae gwaith yn digwydd i wella ansawdd ac argaeledd data yn y maes llesiant yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys data absenoldebau, data cyfeiriadau i wasanaethau megis Cwnsela Medra, data am ddamweiniau o fewn y Cyngor ayb a bydd hyn yn help mawr o ran gyriant y strategaeth a gallu targedu ymyrraeth wrth symud ymlaen. Yn ogystal, bydd yr Holiadur Llais Staff o eleni ymlaen yn symud i fod yn ymarferiad blynyddol sydd yn caniatâd monitro mwy cyson o deimladau staff.

6.4. Mae demograffi y gweithlu yn sicr yn ffactor i'w ystyried ac eto bydd gwell data yn ein caniatáu i dargedu ymyraethau yn well. Fel enghraifft ar hyn o bryd, mae bwriad sefydlu hwb staff ifanc fel cyfle i staff ifanc cael dod at ei gilydd i rwydweithio. Bydd data cywir a phrydlon at y dyfodol yn ein galluogi i ymateb yn llawer mwy cyflym i heriau datblygol, ynghyd â chadw ar flaen datblygiadau cenedlaethol yn y maes yma.

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

7.1. Mae materion cydraddoldeb yn ran pwysig o'r strategaeth gyda bwriad yn ystod y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o bynciau pwysig megis niwro-amrywiaeth, menopôs a dibyniaeth alcohol a chyffuriau.

7.2. Un o prif heriau y cynllun cyfathrebu ar gyfer y Strategaeth yw sicrhau ein bod yn cyrraedd pob gweithiwr, ym mhob gweithle, gan gynnwys y gweithlu nad oes ganddynt gyfrif digidol ar hyn o bryd.

7.3. Mae materion ieithyddol yn fater sy'n derbyn sylw parhaus yn ein rhaglen waith. Mae'r gefnogaeth sydd ar gael i staff yn ddwy-ieithog yn unol a'r egwyddor 'Mwy na Geiriau' gan y Gwasanaethau Iechyd o gael mynediad i wasanaeth Iechyd trwy'r Gymraeg. Un elfen yn unig sy'n eithriad ar hyn o bryd, sef y Meddyg Ymgynghorol Iechyd Galwedigaethol, ond mae gwaith y digwydd ar hyn o bryd gyda meddyg lleol i geisio ganfod olynydd sy'n siaradwr Cymraeg. Fel arall, rydym ymfalchïo o allu darparu Gwasanaeth arbenigol iawn yn gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

**8. Camau Nesaf**

*Gweler pwynt 5.1. uchod*

**Atodiadau**

Cynllun Llesiant Staff y Cyngor 2024 – 2028
Rhaglen Llesiant Cyngor Gwynedd Mai 2024 - Mawrth 2025

# Cynllun Llesiant Staff y Cyngor 2024 - 2028

**GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

CYNGOR GWYNEDD

Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant
1 Hydref 2024

# Cynllun Llesiant Staff Cyngor Gwynedd

**RHAGAIR**

Croeso i Gynllun Llesiant Staff Cyngor Gwynedd. Mae llesiant ein gweithwyr yn flaenllaw i ni yma yn y Cyngor ac yn un o brif ffrydiau gwaith y **Prosiect Blaenoriaeth Ffordd Gwynedd – Gweithlu Bodlon ac Iach**. Mae cael gweithlu sy'n iach, bodlon a gwydn yn ein galluogi i berfformio'n well, cyflawni mwy, addasu'n gyflymach i newid ac mae hynny'n hanfodol er mwyn rhoi'r gwasanaethau o'r radd flaenaf i bobl Gwynedd.

**PAM CAEL CYNLLUN LLESIANT?**

Mae cael Cynllun Llesiant strwythuredig a chynhwysfawr yn cynorthwyo'r Cyngor i:

- ✓ Ddenu gweithwyr newydd;
- ✓ Ymgysylltu, ysgogi a chadw gweithwyr;
- ✓ Creu diwylliant iach a chynhwysol;
- ✓ Gostwng cyfraddau absenoldeb salwch;
- ✓ Gwella perfformiad a datblygiad unigolion;
- ✓ Gwella cynhyrchiant a sicrhau llwyddiant.

**LLESIANT YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

Yng Nghyngor Gwynedd yn ystod 2023/24 roedd…

- Gwir gost absenoldebau i'r Cyngor oedd **£5.7m**
- Collwyd **14,404 (22.13%)** o ddyddiau gwaith oherwydd absenoldeb salwch yn gysylltiedig â straen, iselder a phroblemau iechyd meddwl;
- Collwyd **7,718 (11.86% )** o ddyddiau gwaith oherwydd absenoldeb salwch yn gysylltiedig â phroblemau cyhyrysgerbydol;
- Cofnodwyd 'Sâl arall' fel prif reswm dros salwch **22.79%**;
- Cyfrannodd absenoldebau tymor at **51%** o ddyddiau absenoldeb salwch y Cyngor;
- Ar gyfartaledd mae pob swyddog o fewn y Cyngor wedi colli **10.29** diwrnod gwaith y flwyddyn;

- Collwyd **2.72%** yn fwy o ddyddiau absenoldeb salwch yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23.

- Cyfeirwyd 665 o staff at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol

- Cyfeirwyd 194 o staff y Cyngor at y Gwasanaeth Cwnsela (Medra)

- Cyfeirwyd 129 o staff y Cyngor at y Gwasanaeth Ffisiotherapi

Yn ystod Hydref 2023 rhannwyd Arolwg Llais Staff gyda phob aelod o staff y Cyngor. Pwrpas Arolwg Llais Staff oedd i ddarganfod beth mae gweithwyr y Cyngor ei angen er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i'w gwaith, pa gymorth neu gefnogaeth maent ei angen er mwyn gallu gwneud eu gwaith a pa wybodaeth sydd ei angen arnynt i ynglŷn â buddiannau, hawliau a chyfrifoldebau.

Wedi dadansoddi'r data a barn staff ynglŷn a llesiant yn y Cyngor, dyma grynodeb o'r prif themâu ac ambell sylwad a dderbyniwyd gan staff ar faterion llesiant:

**Rôl eu rheolwr**

- *Mae angen mwy o hyfforddiant i Reolwyr Llinell ar sut i ymdrin a'u staff*
- *Rwyf angen mwy o gefnogaeth gan fy rheolwr llinell*
- *Mae angen cadw cyswllt rhwng gweithwyr â rheolwyr tîm er mwyn gwneud yn siwr fod yr holl wybodaeth yn cael ei rannu*
- *Lwcus iawn i'w gael fel Rheolwr. Hyn sydd wedi profi i mi fod y Cyngor yn wirioneddol boeni am lesiant staff. Mae fy rheolwr yn cynnal 1 i 1 hefo fi er mwyn gweld sut ydw i.*

**Straen**

- *Gormod o bwysau gwaith, gormod o waith ychwanegol wedi cael ei orfodi arnom*
- *Pwysau gwaith yn cynyddu*
- *Rhannu gwaith yn decach rhwng y tim*
- *Byddai yn dda gweld y Cyngor yn ystyried llwyth gwaith a chapasiti. Nifer o swyddogion gyda llwyth gwaith enfawr sydd fydd yn y pendraw yn effeithio ar lesiant*

**Hyrwyddo digwyddiadau llesiant**

- *Nid wyf yn teimlo fod neb yn gofyn am fy llesiant*
- *Damwain a hap oedd ffeindio allan fod sawl gwasanaeth cymorth ar gael*
- *Dim digon da i adael i weithwyr geisio darganfod y cymorth sydd yno i'w cefnogi*
- *Amlygu mwy am y gefnogaeth dda sydd ar gael – pawb ddim yn gwybod amdano*

**Amgylchedd waith**

- *Nid yw'r swyddfeydd yn hyrwyddo llesiant, popeth yn hên.*
- *Angen amgylchedd waith addas i bwrpas, a brafiach*
- *Cael gofod i fynd i fwyta cinio*

- *Mae angen desgiau addas a chael rhywle i fynd am doriad o'r ddesg*
- *Delwedd y swyddfeydd yn drychinebus a thlotaidd a gwneud rhywun yn ddi-bleser cerdded i mewn*

Rydym yn treulio rhan helaeth o'n bywydau yn y gwaith. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) mae tystiolaeth gynyddol yn dangos y gall y gweithle felly fod yn le effeithiol i wella llês unigolion. Os ydym yn anhapus yn ein gwaith am be bynnag reswm – gall fod yn berthnasau gwael gyda chydweithwyr, pwysau gwaith gormodol, neu Rheolwr anghefnogol, yna mae'n mynd i gael ardrawiad ar ein llesiant. Mae bod mewn gwaith yn gallu cynnig sicrwydd ariannol, cysylltiadau cymdeithasol, ac ymdeimlad o berthyn. Yn gryno, er mwyn sicrhau llesiant, mae angen i unigolyn fod yn cael boddhad o ddod i'w gwaith. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan sylweddol felly wrth ddylanwadu ar iechyd a llesiant cyffredinol gweithwyr.

Wrth sicrhau ein bod yn gwireddu ein gweledigaeth gallwn ddenu, recriwtio a chadw staff mewn modd sy'n arddangos ein bod yn cymryd eu llesiant o ddifri fel eu bod yn cyfrannu'n rhagweithiol at gynhyrchiant ac effeithiolrwydd y Cyngor.

**EIN GWELEDIGAETH**

***"Gweithio gyda'n gilydd i wella llesiant ar draws holl weithlu'r Cyngor gan greu'r amgylchedd gwaith gorau posib er mwyn sicrhau ein bod yn creu gweithlu iach, gwydn a chynhyrchiol sy'n gallu gweithio hyd eithaf eu gallu i wasanaethu trigolion Gwynedd".***

**EIN NOD**

Mae ein prif amcanion o ran y cynllun llesiant yn seiliedig ar dri sylfaen, sef:

1. Arwain a Rheoli
2. Cefnogaeth gynaliadwy
3. Amgylchedd

Ceir mwy o wybodaeth am y tri syflaen isod, ond cyn edrych arnynt ymhellach dylid hefyd amlygu yr egwyddorion gweithredu ar gyfer y Cynllun. Rhain yw'r egwyddorion y byddwn yn glynu ac ymrymo iddynt wrth wireddu'r Cynllun. Rydym yn ymrwymo i:

- Sicrhau bod ein gweledigaeth, nôd ac amcanion yn gyson a threfniadau a gweithdrefnau ehangach yn y maes adnoddau dynol ac iechyd a diogelwch;

- Sicrhau fod amcanion allweddol y cynllun yn gyson ag amcanion Cynllun Ffordd Gwynedd;

- Sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn ymwybodol o'r gofyn statudol sydd arnynt.

- Sicrhau fod cydlynnu ar faterion llesiant yn gorfforaethol er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth a'r cynnigion yn dêg ar draws y Cyngor, a fod rhaglenni penodol wedi eu targedu a'u blaenoraethu yn ôl yr angen am hynny.

## SYLFAEN 1: ARWAIN A RHEOLI

### Amcanion

- Sicrhau fod llesiant yn rhan ganolog o'n blaenoriaethau strategol ar gyfer ein harweinwyr a'n cynghorwyr ar draws pob swyddogaeth o fewn Cyngor Gwynedd a sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'n gofynion statudol;

- Creu amgylchedd gwaith diogel ac iach sy'n meithrin diwylliant o les cadarnhaol, ble gweler llês ein gweithwyr yn rhan annatod o bopeth a wnawn;

- Creu rheolwyr effeithiol sydd â pherthnasoedd gwaith cryf yn unol â Chynllun Ffordd Gwynedd;

- Gwella gweledêdd arweinwyr a sicrhau eu bod yn ymgysylltu gyda gweithwyr yn rheolaidd ac yn arddel pwysigrwydd llesiant;

- Sicrhau bod ein gweithwyr yn deall eu rolau, eu disgwyliadau, eu ffocws yn y dyfodol a chreu teimladau o ymrwymiad a boddhad personol.

- Gwella hyfforddiant arweinyddiaeth fel bod arweinwyr yn deall y cysylltiadau rhwng llesiant a meysydd craidd eraill fel iechyd a diogelwch a pherfformiad a datblygiad.

- Arfogi a grymuso rheolwyr i fod yn cynnal sgyrsiau rheolaidd a'u staff am eu llesiant

- Gwella llesiant ar gyfer ein gweithlu amrywiol a sicrhau bod llesiant yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb ar bawb ar draws Cyngor;

- Cael ein cydnabod fel cyflogwr o ddewis sy'n poeni am les ac yn cydnabod y rôl y gall llesiant ei chwarae yn y darlun ehangach gan gynnwys gwella cynhyrchiant a ffyrdd o weithio;

## SYLFAEN 2: CEFNOGAETH GYNALIADWY

### Amcanion

- Darparu ystod o gymorth llesiant effeithiol yn seiliedig ar anghenion ein gweithlu, gan ddefnyddio dull cydweithredol.

- Mae ein cefnogaeth gynaliadwy yn canolbwyntio ar bedwar prif egwyddor llesiant sef:

- Meddyliol
- Corfforol
- Cymdeithasol
- Ariannol

### *1. Llesiant Meddyliol:*

- Hybu diwylliant ble gellir trafod llesiant meddyliol yn agored;

- Arfogi gweithwyr gyda'r sgiliau, gwybodaeth a hyder i ofalu am eu llesiant meddyliol eu hunau a chefnogi eraill;

- Darparu gwell mynediad at gymorth, cyngor a chyfeirio.

- Sicrhau bod asesiadau risg straen yn cael ei cwblhau a'i hadolygu yn rheolaidd.

- Adnabod 'Hyrwyddwyr Llesiant' ar draws Adrannau'r Cyngor gydag Amser i Newid Cymru;

- Parhau gyda'r rhaglen hyfforddiant i-Act a chymorth cyntaf iechyd meddwl;

- Parhau a datblygu ymhellach cefnogaeth arbenigol i'r gweithlu o ran niwromarywiaeth

- Cynnal ymgyrchoedd hybu iechyd sydd yn cyrraedd pob aelod staff drwy ymweliadau, tudalennau gwe, posteri, codau qr;

- Datblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n cynrychioli arferion gorau o ran iechyd meddwl, gan gynnwys creu diwylliant agored a chynhwysol sydd yn dangos parch at yr unigolion sydd yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl a'r stigma all fodoli o gwmpas hyn gan gynnwys polisi alcohol a chyffuriau;

- Cynnig cymorth 24 awr i'r holl staff drwy ddarparu gwasanaethau cwnsela ar gais;

- Hybu diwylliant anoddefgarwch o fwlio ac aflonyddu.

## *2. Llesiant Corfforol*

- Creu amgylchedd lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u haddysgu am eu llesiant corfforol

- Cefnogi gweithwyr i ofalu am eu hunain a chymryd camau cadarnhaol o amgylch iechyd megis ffordd iach o fyw, cwsg, maeth, gweithgaredd corfforol, ysmygu, alcohol.

- Sefydlu rhaglenni ar gyfer cyflyrau clinigol penodol;

- Rhoi'r cyfle i holl weithwyr gynyddu gweithgarwch corfforol drwy godi ymwybyddiaeth o opsiynau ffordd iach o fyw, patrwm cwsg, ysmysgu, alchohol.

- Annog staff i ddilyn fframwaith pump ffordd i lesiant gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Cefnogi iechyd corfforol staff yn y gweithlu drwy hyrwyddo ein cynigion presennol ac ymchwilio'n barhaus i ddatblygu rhai newydd

- Cefnogi gweithwyr sydd yn sâl i aros yn eu gwaith ac i ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb salwch drwy'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.

- Sesiynau Ffisiotherapi i staff cymwys sydd wedi cael niwed yn y gwaith, neu yn dioddef a symptomau sydd yn cael effaith ar ei dyletswyddau dyddiol.

- Sicrhau bod ein staff sy'n gweithio mewn maes ffisegol yn derbyn sesiynau Gwyliadwriaeth Iechyd yn unol a'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

- Gwella amgylchedd gwaith a'r trwy sicrhau bod staff yn cwblhau hunan-asesiad gweithfan.

## *3. Llesiant Cymdeithasol*

- Parhau i wella'r berthynas sydd gennym â'n gilydd ar draws y Cyngor;

- Meithrin perthnasoedd iach, cydweithredol, meithringar a chefnogol, sy'n cynnwys arweinyddiaeth dda, i feithrin cymuned ddiffuant o fewn Cyngor Gwynedd;

- Annog ymgysylltiad dinesig a chymunedol i wella ymdeimlad o berthyn a chreu cysylltiadau cryf o fewn cymuned ehangach Gwynedd.

- Creu cysylltiadau cryf â'r amgylchedd ehangach rydym yn byw ac yn gweithio ynddo drwy gydweithio gyda phobl Gwynedd.

- Magu perthynas gydag ysgolion, prifysgol, y gymuned ehangach er mwyn hyrwyddo cyfleoedd agored megis rhaglenni prentisiaethau, a chynllun yfory.

- Sicrhau fod cyfleoedd dysgu ar gael i weithwyr megis rhaglenni hyfforddi perthnasol i'r swydd ynghyd a chyfleodd i ddatblygu ac ehangu gorwelion;

- Creu amgylchedd gynhwysol sydd yn dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### *4. Llesiant Ariannol*

### *Amcanion*

- Cefnogi unigolion i ddod yn fwy ymwybodol o'u sefyllfa ariannol.

- Lleihau straen ariannol drwy gynorthwyo gweithwyr i reoli eu harian yn well a dod yn fwy diogel yn ariannol. Bydd hyn yn cynnwys meysydd fel rheoli dyled, cyllidebu, cynilo, pensiynau, buddsoddiadau a byw o fewn ein modd.

- Cynnal a pharhau i ddatblygu pecyn buddion cynhwysfawr i staff

- Hyrwyddo arferion cyflogaeth sy'n osgoi cyflogau isel, contractau ansicr, cyflog annheg

## 3. SYLFAEN 3:  AMGYLCHEDDOL

## Amcanion

- Adeiladu ymhellach ar yr amgylchedd waith ym mhob man gwaith i sicrhau fod diogelwch a llesiant yn rhan annatod o'r gweithle.

- Creu amgylchedd gynhwysol sy'n dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth y gweithlu.

- Adnabod a thargedu ymyrraeth a chefnogaeth mewn gweithleodd ple fo data yn cefnogi ymyrraeth / cefnogaeth mwy dwys er mwyn canfod a rhoi sylw i wraidd unrhyw batrymau absenoldebau.

**SUT FYDDWN YN GWEITHREDU'R CYNLLUN?**

Diben ein Cynllun yw sicrhau bod llesiant yn rhan hanfodol o'n hethos fel Cyngor. Mae angen i lesiant fod yn ganolog ar draws y Cyngor cyfan gan ddatblygu a chreu diwylliant ble mae llesiant yn cael ei hyrwyddo ar bob lefel o fewn y Cyngor ac yn cael effaith gadarnhaol ar anghenion unigol ac amrywiol pawb.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

## Ein Diwylliant

- Parhau i weithio ar gael y diwylliant priodol yn ei le fel bod llesiant yn dod yn un o werthoedd craidd y Cyngor ac yn cael ei integreiddio i'n gweithdrefnau, polisïau a'n harferion gwaith.
- Cynyddu gweleDedd ac ymwybyddiaeth o lesiant, gan wella'r ffordd o gyfeirio at adnoddau mewnol ac allanol.
- Datblygu cynllun cyfathrebu clir i sicrhau fod negeseuon ynglŷn â llesiant yn treiddio ac yn cyrraedd gweithlu'r Cyngor;

## Atal

- Canolbwyntio ar gynorthwyo gweithwyr i wneud dewisiadau gwell, newid ymddygiad a rheoli eu llesiant yn well;
- Gwneud llesiant yn arferiad ac nid yn rhywbeth ar gyfer cyfnod o newid, argyfwng neu drallod;
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fuddion y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ac unrhyw fentrau llesiant sydd ynghlwm a'r gwasanaeth.

# Fy Llesiant

Byddwn yn :

- Codi ymwybyddiaeth o'r angen i bawb gymryd cyfrifoldeb personol o'u llesiant a chydnabod manteision mentrau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi anghenion unigol.
- Mapio beth mae lles yn ei olygu i unigolion ar wahanol adegau yn eu gyrfa gan adnabod a deall yr adegau allweddol sy'n bwysig i bobl, a'r effaith y gall y rhain ei chael ar eu llesiant fydd yn ei dro yn siapio ein mentrau llesiant.


- Dathlu amrywiaeth ein pobl, hyrwyddo cynhwysiant llesiant a gweithio i sicrhau bod llesiant yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth i bawb.

## Cydweithio a Gweithredu ar Sail Tystiolaeth

Byddwn yn:

- Sicrhau bod mentrau llesiant yn seiliedig ar anghenion gweithlu a thystiolaeth ymchwil gadarn;
- Rhoi a derbyn adborth ac yn rhannu arfer gorau i feithrin cydweithio;
- Gwella'r ffordd o gasglu data i ddysgu mwy am ein gweithwyr ac olrhain tueddiadau i fesur llwyddiant a meysydd gwella.
- Olrhain a mesur cynlluniau gweithredu, gan gynnal adolygiadau rheolaidd.

**EIN MODEL LLESIANT INTEGREDIG**




Er mwyn gweithredu'r Cynllun yn effeithiol bydd angen cynllun gweithredu hirdymor sydd yn cynnwys manylion penodol a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i symud ymlaen i gyflawni.

Bydd angen sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei ategu gan gynlluniau busnes a gwasanaethau penodol megis Cynllun y Cyngor a Chynllun Ffordd Gwynedd.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei lunio ar ddiwedd pob blwyddyn er mwyn adolygu cynnydd ac effaith ac er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn cyd fynd ag amcanion strategol ehangach y Cyngor.

Yn y pen draw, dylai pob unigolyn yn y Cyngor weld a theimlo cysylltiad â nod ein Cynllun Llesiant a'n gweledigaeth.

**Blwyddyn 1**
Cyflwyno llesiant, cynllun gweithredu ac alinio a chynlluniau eraill

**Blwyddyn 2**
Llesiant yn sefydlu

**Blwyddyn 3**
Llesiant yn treiddio

**Blwyddyn 4**
Pwyso a mesur a chynllunio ar gyfer y camau nesaf

**MESUR LLWYDDIANT**

Gellir mesur llwyddiant mewn sawl ffordd wahanol. Ein dull o fesur llwyddiant o safbwynt y cynllun hwn drwy broses gylchol o gydweithio, adlewyrchu ac adolygu gwelliant.

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o fesurau er mwyn mesur effaith y Cynllun Llesiant ac er mwyn sicrhau fod llesiant yn ffynnu ac yn ganolog i lwyddiant Cyngor Gwynedd.

Dyma rhai o'r dulliau fyddwn yn eu defnyddio i fesur llwyddiant:

- **Lefelau absenoldeb salwch;**
- **Arolygon rheolaidd ac adborth parhaus;**
- **Datblygu asesiadau effaith llesiant;**
- **Monitro a gwerthuso unrhyw ymyrraethau llesiant er mwyn sicrhau eu bod yn parhau fod yn effeithiol**
- **Adroddiad gwerthuso blynyddol a chynlluniau gweithredu wedi eu diweddaru;**
- **Boddhad cwsmeriaid / Cyrraedd nodau sefydliadol;**

**ADNODDAU**

Yn sgil yr hinsawdd ariannol presennol, bydd rhaid defnyddio ein hadnoddau presennol i'r eithaf er mwyn cyflawni'r cynllun. Golyga hyn y bydd y Gwasnaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant o fewn yr Adran Gwasnaethau Corfforaethol yn arwain ac yn chydlynnu'r gwaith yn bennaf. Fodd bynnag, mae rôl allweddol o ran yr Hyrwyddwyr Llesiant a hefyd yr adrannau o ran perchnogi, cyfrannu a gweithredu'r cynllun hwn. Mae'n anorfod fod hynny'n golygu na ellir cyflawni agweddau o'r cynllun hwn mewn dulliau delfrydol ac i amserlen cynnar.

Gyda rhagor o adnoddau byddai modd cyflymu'r rhaglen ac o bosib cynnig ymyrraethau mwy dwys a chynhwysfawr ond bydd angen cyflwyno'r achos busnes i wneud hynny ar sail achos unigol.

**CYFNOD ADOLYGU**

Bwriedir monitro cynnydd y cynllun hwn drwy Grwp Swyddogion Ffordd Gwynedd a hefyd y Grwp Arweiniol o'r prosiect blaenoriaeth hwnnw. Byddwn hefyd yn adrodd fel bo'r angen i'r cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad adrannol ac i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi a Chabinet y Cyngor.

**Rhaglen Waith – Blwyddyn 1 (2024 – 2025)**

| Rhif Prosiect | Beth? | Pwy? | Pryd? |
|---|---|---|---|
| 1. | Datblygu'r Cynllun Llesiant i Staff gan dderbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Ebrill – Hydref, 2024 |
| 2. | Lawnsio Polisi Rheoli Absenoldeb y Cyngor yn cynnwys system electroneg i'r rheolwyr trwy hunain wasanaeth staff. | Rheolwr Adnoddau Dynol | |
| 3. | Cynnal Sioe Deithiol o amgylch y Cyngor i dargedu gweithwyr coler las e.e. depos a chartrefi preswyl. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | |
| 4. | Cynnal sesiwn strategol gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar gynnwys y cynllun | Pennaeth Cynorthwyol / Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Hydref, 2024 |
| 5. | Ymgynghori gyda'r Fforwm Corfforaethol a chais iddynt gyflwyno a'i drafod ym mhob Fforwm Adrannol. | Rheolwr Iechyd Diogelwch a Llesiant. Arweinydd Tîm IG | Hydref 2024 |
| 6. | Cyflwyno'r Cynllun i gyfarfod o Gabinet y Cyngor ar gyfer ei fabwysiadu | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Tachwedd, 2024 |
| 7. | Llunio a gweithredu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda staff, ychwanegu'r ddogfen i'r fewnrwyd, sesiwn byw'r Prif Weithredwr, bwletin staff ayyb. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Rhagfyr/Ionawr 2025 |
| 8. | Cynnal Cyflwyniad o fewn y Rhwydwaith Rheolwyr ar y Cynllun. | Pennaeth Cynorthwyol / Rheolwyr Iechyd a Diogelwch a'r Arweinydd Tîm | Tachwedd 2024 |
| 9. | Ail gychwyn yr hyfforddiant I-Act i reolwyr presennol a rheolwyr yn cychwyn o fewn y Cyngor. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Hydref/Tachwedd 2024 |
| 10. | Adnabod, codi ymwybyddiaeth a chynnal hyfforddiant i Hyrwyddwyr Llesiant o fewn Adrannau'r Cyngor gan 'Amser i Newid Cymru'. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Hydref 2024 |
| 11. | Creu rhaglen waith ar gyfer rôl a ffiniau Hyrwyddwyr Llesiant ar draws y Cyngor. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Tachwedd 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12. | Adolygu Polisi Llesiant Meddyliol Cyngor Gwynedd a'i lansio | Arweinydd Tîm IG<br>Arweinydd Tîm I&D | Mawrth 2025 |
| 13. | Llunio rhaglen o weithgareddau a chymorth i holl weithwyr y Cyngor gan gynnwys gwahoddiad i bartneriaethau allanol i roi cyflwyniadau, megis menopôs, polisi alcohol a chyffuriau, 'Mind Cymru' | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant<br>Arweinydd Tîm IG | Mawrth 2025 |
| 14. | Datblygu cysylltiadau sydd yn gallu darparu cymorth i staff sef Iechyd Galwedigaethol a Medra. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant<br>Arweinydd Tîm IG | Chwefror 2025 |
| 15. | Creu adroddiadau Penaethiaid Adran yn cynnwys gwybodaeth angenrheidiol er mwyn creu perchnogaeth a rhoi gwell data i reoli llesiant o fewn eu Hadrannau. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant<br>Arweinydd Tîm IG | Ebrill 2025 |

# ***Rhaglen Llesiant Cyngor Gwynedd Mai 2024- Mawrth 2025***

***Nid yw'r rhestr hon o weithgareddau yn gynhwysfawr. Bydd ymweliadau i feysydd gwaith penodol yn cael ei dargedu yn ôl yr angen. Mi fydd y meysydd gwaith penodol yn cael cefnogaeth / sylw yn dilyn derbyn data byw o sefyllfa absenoldebau salwch, symptomau o straen, cyhyrysgerbydol.***

| Rhoi | Gweithgaredd | Crynodeb o weithgaredd | Lleoliad | Targed | Gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mai 2024** | **Canser y Ceilliau** | **Poster**- Mae canser y ceilliau yn cynyddu yn y Deyrnas Unedig, gyda thua 2,300 yn cael diagnosis bob blwyddyn. Gellir trin y math yma o ganser fel arfer os caiff ei ddal yn gynnar. [1]<br><br>Atgoffa aelodau o staff i wirio eu ceilliau, yn ogystal â chod QR ar y posteri yn mynd a nhw i safle i ddysgu sut i wirio ei cheilliau. | Toiledau Dynion a Merched | Pob aelod o staff (Depo, Cartrefi Gofal, Byw'n Iach, Swyddfeydd). | Lois Thomas |
| **Mehefin 2024** | **Gofal Haul** | Codi ymwybyddiaeth o sut i ofalu am eu hunan wrth weithio allan yn yr haul/ gwres a beth i edrych allan am gydag unrhyw dyfiant.<br><br>Mae achosion o ganser y croen wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Ymddengys mai cysylltiad â'r haul yw'r prif achos dros hyn. | Mewnrwyd | Staff PP/YGC, Amgylchedd, Morwrol. | Lois Thomas |
| | | | | | |
| **Awst 2024** | **Sioe Deithiol Iechyd a Lleisiant** | Cynnig gwiriadau iechyd i'r staff mewn gwahanol leoliadau a chodi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael o fewn y Cyngor.<br><br>Stondinau yn cynnwys: Gofal Cefn, Alcohol a Chyffuriau, Buddiannau i staff, Lles Meddyliol, Byw'n Iach a Hunanwasanaeth. | Digwyddiadau ar draws y Cyngor | Aelodau o staff y Cyngor yn enwedig staff y Depo's a Chartrefi preswyl. | Lois Thomas |
| **Medi 2024** | **Diwrnod Hunanladdiad Y Byd** | Mae ystadegau hunanladdiad wedi cynyddu ers y flwyddyn ddiwethaf, gydag oedrannau pobl sydd mewn gwaith yn bod yr uchaf. [2]<br><br>Y themâu flwyddyn yma gan WHO (Sefydliad Iechyd Y Byd) yw 'Newid y naratif ar hunanladdiad' ac 'i ddechrau'r sgwrs'.<br>Y nod ar gyfer eleni yw lleihau'r stigma ac i annog unigolion i ddechrau siarad am hunanladdiad<br><br>Codi ymwybyddiaeth ac atgoffa'r staff o'r cymorth sydd ar gael os ydynt yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys Iechyd Galwedigaethol, MEDRA, Mind Cymru a ffynonellau allanol pellach. | Gair Wythnosol Mewnrwyd | Aelodau o staff sydd gyda mynediad i'r fewnrwyd/ e-byst | Lois Thomas |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymgyrch Ffliw** | Gall ffliw arwain at salwch difrifol megis broncitis neu niwmonia bacteriol eilaidd i'r henoed neu rheiny mewn iechyd gwael. Mae Prif Swyddog Iechyd y Llywodraeth yn gofyn bod cyflogwyr yn cynyddu'r nifer o weithwyr sy'n derbyn y brechiad. | Cydlynu hefo Fferyllfa Rowlands er mwyn gyrru taleb electronig allan i staff cymwys | Aelodau staff cymwys sydd wedi ei adnabod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru | Iechyd Galwedigaethol |
| **Hydref 2024** | **Wythnos Ymwybyddiaeth Gofal Cefn** | Yr ail prif reswm am salwch o fewn y Cyngor yw salwch cyhyrysgerbydol.<br>Rhannu gwybodaeth ar sut i ofalu am ein hunan, ein hosgo, a rhannu ffynonellau allanol i'w helpu.<br>Staff swyddfeydd / gweithio hybrid i gwblhau asesiad gweithfan. | Gair Wythnosol Mewnrwyd | Aelodau o staff Swyddfeydd (DSE) | Lois Thomas |
| | **Diwrnod Iechyd Meddwl Y Byd** | Mae 2 filiwn o bobl yn aros am wasanaethau iechyd meddwl gan GIG [Diwrnod iechyd Meddwl y Byd - Mind]<br><br>Codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i holl staff y Cyngor, gan gynnwys rhannu gwybodaeth ar sut i gael mynediad i gefnogaeth gan asiantaethau allanol. | Mewnrwyd IDLL<br>Gair Wythnosol | Aelodau o staff sydd gyda mynediad i'r fewnrwyd/ e-byst yn cynnwys cylchlythyr Addysg a Gofalwyr Cartref/ Cymunedol | |
| | **Diwrnod Ailddechrau'r Galon** | Hyrwyddo sesiynau sydd ar gael gan Byw'n Iach (Wythnos yn Hydref yn unig) a *British Heart Foundation* i hyfforddi staff ar sut i roi CPR. Codi ymwybyddiaeth o leoliadau Diffribliad ar draws y Cyngor. Ymuno ac ymgyrch Sefydliad Prydeinig y Galon. | Gair Wythnosol<br>Prif Swyddfeydd Cyngor (Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau) a rhithiol | | |
| | **Diwrnod Menopos Y Byd** | **Gweithdai Menopos-** Nododd y Senedd bod 900,000 o ferched wedi gadael eu swyddi oherwydd ei symptomau menopos [3].<br>Mae nifer o aelodau o staff wedi gofyn am sesiynau menopos yn dilyn yr arolwg llais staff. Hyrwyddo sesiynau menopos gydag asiantaeth allanol i allu trafod teimladau a rhannu profiadau.<br><br>Rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth staff o'r Polisi Menopos yn ogystal ag asesiad risg menopos. | Toiledau Merched a Dynion<br>Gair Wythnosol | Aelodau o staff sydd yn mynd drwy menopos / staff yn gyffredinol a Rheolwyr. | |
| | **Cancr a Fron** | **Poster**- Y canser fwyaf cyffredin yn y Deyrnas Unedig, ac un o'r prif achosion marwolaeth i ferched o dan 50 oed [4]<br>Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd i wirio ei hunan yn aml, gyda chod QR i ddangos sut. | | Pob aelod o staff | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd 2024** | **Mis Ymwybyddiaeth Iechyd Dynion**<br><br>**Ymwybyddiaeth Straen** | Targedu staff a gweithwyr ifanc, all fod yn llai tebygol i ymweld â'i Meddygon Teulu. Gofyn i ddynion yrru llun ohonyn nhw ei hunain gyda barf (Movember) i'w ddangos ar y fewnrwyd. Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r pwysigrwydd i ddynion drafod eu pryderon gydag eraill.<br><br>Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer holl aelodau o staff. Hybu mewnrwyd Iechyd, Diogelwch a Llesiant (IDLL) yn benodol y dudalen Iechyd Meddwl sydd yn rhannu ymarferion da/ ffynonellau ac adnoddau defnyddiol o sut i ddelio gyda straen. | Mewnrwyd<br><br>Mewnrwyd IDLL | Pob aelod staff | Lois Thomas |
| **Rhagfyr 2024** | **Ymwybyddiaeth Alcohol a Chyffuriau**<br><br>**Ymwybyddiaeth Galar** | Anelu i ddefnyddio'r cyfnod cyn y Nadolig (fel mae'r Heddlu) i godi ymwybyddiaeth o'r effeithiau negyddol gall alcohol gael ar iechyd e.e. pwysau, pwysedd gwaed, cwsg, diabetes.<br><br>Poster - Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer unigolion hefo dibyniaeth Alcohol a Chyffuriau. Gan gynnwys ymuno ar ymgyrch o'r polisi newydd. Cynghori ar faterion all godi, a chyfeirio ymlaen at wasanaethau eraill.<br><br>Codi ymwybyddiaeth o'r help gall Iechyd Galwedigaethol a Chwnsela Medra yn ogystal ag asiantaethau allanol ei gynnig ar amser heriol ar gyfer unigolion sydd yn delio gyda galar. | Ar hysbysfwrdd ar draws y Cyngor Mewnrwyd<br><br>Gair wythnosol Hunanwasanaeth / Mewnrwyd Addysg | Pob aelod o staff (Depo, Cartrefi Gofal, Addysg, Swyddfeydd)<br><br>Pob aelod o staff | Lois Thomas |
| **Ionawr 2025** | **Dydd Llun Glas** | Ionawr yn dueddol o fod yn fis ble mae pobl yn teimlo'r isel - 'January blues'. Rhannu gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â beth all godi ysbryd - ymarfer corff, bwydydd i osgoi, cydbwysedd bywyd a gwaith, patrwm cwsg da.<br><br>Cynnal sesiynau rhithiol gydag Amser i Newid Cymru i amlygu ffeithiau allweddol am Iechyd Meddwl a herio stigma (gan gynnwys hunan-stigma).<br><br>(Cael recordiad o'r sesiwn fel bod modd i staff y Cyngor - Addysg, Gofalwyr, Staff Amgylchedd, PP/YGC gael y cyfle i weld y sesiwn). | Rhithiol | Unrhyw aelod o staff sydd gyda diddordeb. | Lois Thomas/ Tîm Iechyd Diogelwch a Llesiant |
| **Chwefror 2025** | **Diwrnod Amser i Siarad (Iechyd Meddwl)** | Sesiwn gyda'r Hyrwyddwyr Llesiant gyfer aelodau o staff gael y cyfle i siarad ac agor i fyny am eu teimladau/ Iechyd Meddwl. | Lleoliadau Hyrwyddwyr Llesiant | Aelodau o staff swyddfeydd | Tîm Iechyd Diogelwch a Llesiant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mis Ymwybyddiaeth y galon** | Rhannu ymwybyddiaeth staff o'r gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.<br><br>Pob blwyddyn mae o gwmpas 100,000 o dderbyniad i ysbytai oherwydd trawiad y galon. Mae hynny'n golygu bod ysbytai yn derbyn o gwmpas 290 achos pob dydd [5].<br><br>Cynnal cystadleuaeth cerdded i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd symud, cadw actif. Gall hyn atgyfnerthu gweithio mewn tîm a chydweithio. | Cystadleuaeth | Pob aelod o staff | |
| **Mawrth 2025** | **Diwrnod Cenedlaethol Dim Smygu** | Codi ymwybyddiaeth o'r effaith mae ysmygu a *vapes* yn cael ar y corff, rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael i helpu rhoi gorau i ysmygu. | Mewnrwyd | | Tîm Iechyd Diogelwch a Llesiant |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 17eg Hydref 2024 |
| **TEITL** | Sesiynau Ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg Gwynedd |
| **PWRPAS** | Ethol 5 cynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i fynychu'r sesiwn ymgysylltu. |
| **AWDUR** | Rhys Glyn- Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd |

1. **CEFNDIR**

1.1. Dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, bydd cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd yn cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg presennol y Cyngor. Bydd y sesiynau hyn yn gyfle i drafod ac i gasglu syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â'r polisi, ac i ystyried a oes angen ei ddiwygio yng ngoleuni canlyniadau Cyfrifiad 2021 a nifer o ddatblygiadau polisi ym maes iaith ac addysg ar y lefel genedlaethol.

1.2 Bydd pob cynrychiolydd yn derbyn copi o Bolisi Iaith Addysg cyfredol Cyngor Gwynedd, ynghyd â dogfen fer trwy e-bost er mwyn gosod cyd destun i'r drafodaeth.

1.3 Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg, rydym yn anelu i gael 5 Aelod o'r Pwyllgor Iaith a 5 Aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i fynychu'r cyfarfod ymgysylltu ynghylch Polisi Iaith Addysg Gwynedd. **Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher, 4ydd o Ragfyr rhwng 1:30 a 3:30 y prynhawn**. Gall aelodau ymuno o bell neu ar leoliad yn y Pencadlys.

1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ethol 5 Aelod o'u plith i fynychu ar y dyddiad a'r amser uchod. Dylid ymgeisio at sicrhau cynrychiolaeth o bob grŵp gwleidyddol.